

sportwales
chwaraeon cymru

noddir gan
Lywodreth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Awarding funds from
THE NATIONAL LOTTERY

Dyma Chwaraeon Cymru.

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017-2018.



Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae Chwaraeon Cymru yn Unig Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Hanes a chefnidir statudol

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Brenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i cyllidir drwy gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau. Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 o'r Siarter Brenhinol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a benderfynir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn swyddfa Chwaraeon Cymru yng Ngherddi Sophia yng Nghaerdydd.

Cyfansoddwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi cofrestru fel elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) ac addysg yng nghyswllt hynny;
2. darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden gorfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

Swyddfa Gofrestredig

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW



2017/18

Mwy na Chwaraeon.

Ein cyfraniad ar y cyd at lesiant Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cynaliadwyedd, a'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae Chwaraeon Cymru yn Unig Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.



Rydw i wedi cael fy nghalonogi'n fawr wrth deithio ledled y wlad o weld cymaint o bobl o wahanol oedran ac o bob cefndir mewn bywyd yn mwynhau eu chwaraeon.

Mae'r 12 mis ers fy mhenodi fel Cadeirydd Dros Dro wedi bod yn gyfnod hynod arwyddocaol i Chwaraeon Cymru.

Rydw i'n gweld ymdrech ar y cyd i herio ffyrdd o weithio, gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau, manteision tymor hir i bob cenhedlaeth a chydweithredu cadarnach ar draws asiantaethau hyd yn oed.

Roeddent yn cynnwys merched Merthyr Girls Can - gyda rhai ohonynt ond newydd ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon ond wedi rhedeg marathon Llundain - a gymnastwyr addawol yng Nghanolfan Hamdden Cei Connah.

Hefyd roedd yn bleser cael lansio ein sgwrs genedlaethol ar ddyfodol chwaraeon yng Nghymru ymhlith disgyblion brwdfrydig blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Gynradd Parc y Rhath yng Nghaerdydd. Profiad ysbrydoledig iawn oedd sgwrsio gyda'r plant am eu gweithgareddau chwaraeon presennol a'u gobewithion ar gyfer y dyfodol!

Roedd y Sgwrs yn ymarfer cyfathrebu pwysig gyda'r nod o gynnwys y genedl mewn datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.



Dyma'r sail a gaiff ei defnyddio gan y Bwrdd, gan weithio gyda'r Weithrediaeth, i benderfynu ar ein strategaeth newydd. Un mesur allweddol o lwyddiant y strategaeth hon fydd cynyddu nifer y bobl o gymunedau tlawd a difreintiedig sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Hefyd rhaid i ni gau'r bwllch presennol o 10% sy'n bodoli rhwng y rhywiau o bob oedran ac annog mwy o ferched a genethod i fod yn egnïol drwy chwaraeon.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r Bwrdd, Andrew Lycett, Simon Pirotte, Yr Athro John Baylis ac Amanda Bennett, y mae eu tymor gwasanaethu wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn, a chroesawu'r aelodau newydd, Pippa Britton, Ashok Ahir, Alison Thorne, Ian Bancroft a Christian Malcolm. Rydym wir yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r arbenigedd maent yn eu cyfrannu at drafodaethau'r Bwrdd.

Lawrence Conway, Cadeirydd

Dydi hi ddim yn gyfrinach bod chwaraeon yn ysbrydoli.

Wrth i'r flwyddyn hon ddod i ben, fe wyliais i mewn rhyfeddod wrth i'r sgiwraig o Gymru, Menna Fitzpatrick, a'i phartner Jen Kehoe, greu hanes, gan ennill mwy o fedalau nag unrhyw Brydeiniwr arall erioed yng Ngemau Paralympaidd y Gaeaf.

Gwaith tîm yw cyfrinach y ddwy yma, sy'n thema amlwg yn yr Adroddiad Blynyddol eleni.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi darparu gwir ffocws ar gyfer ein gwaith ni eleni. Mae chwaraeon yn ymestyn ar draws sawl agenda yn ein hymgyrch ni i greu cenedl iach ac egniol, gan greu enw i Gymru ym mhob cwr o'r byd drwy gynnal digwyddiadau

mawr fel Gêm Derfynol Cynghair y Pencampwyr UEFA.

Mae gwerthuso effaith chwaraeon – yn gymdeithasol ac yn economaidd – wedi dod yn bwysicach nag erioed ac rydyn ni'n mynd i'r afael â hynny.

Rydyn ni wedi edrych am atebion arloesol i'n heriau, wrth i ni symud drwy gyfnod o newid sylfaenol. Wrth i ni wynebu dyfodol newydd, rhaid i ni fod yn feiddgar a rhaid i ni annog eraill i gymryd risg ochr yn ochr â ni wrth i ni greu cadernid ar gyfer y sector.

Fel mae'r adroddiad yma'n dangos, mae gennym ni amrywiaeth o bartneriaid gwych ac fe

hoffwn i ddiolch iddynt am eu hymrwymiad, eu harloesi a'u cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Rydyn ni'n gwybod bod cydweithio'n gallu talu ar ei ganfed ac rydyn ni'n creu cynllun gweithredu ar y cyd gyda'n cydweithwyr ym maes iechyd. Yn y cyfamser, rydyn ni'n edrych ar bosibiliadau ar draws amrywiaeth o bartneriaid – presennol a newydd – wrth i ni estyn allan at grwpiau a chymunedau amrywiol.

Gyda'n gilydd byddwn yn gwthio ffiniau i greu cenedl egniol a llwyddiannus ar gyfer y dyfodol.

Sarah Powell, Prif Weithredwr

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Wedi'i sefydlu gan Siarter Brenhinol, sylfaenwyd Chwaraeon Cymru gyda'r amcan o "feithrin darparu chwaraeon a hamdden gorfforol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru". Y sefydliad yw prif gynghorwr Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion yn ymwneud â chwaraeon ac mae ganddo gyfrifoldeb am ddsbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol i chwaraeon elitaidd ac ar lawr gwlad ledled Cymru.

Nodir isod sut mae Chwaraeon Cymru'n chwarae ei ran yn strategaeth 'Ffyniant i Bawb' y Llywodraeth, a gyflwynir drwy bartneriaethau, prosiectau ac effaith.



Ein Gweledigaeth a'n Dyheadau

Uno cenedl sy'n
caru'r campau

Pob plentyn wedi
gwirioni ar chwaraeon
am oes

Cenedl o
Bencampwyr

Ein Rôl

Yr awdurdod ar
chwaraeon

Y llais sy'n uno
chwaraeon

Y buddsoddwr
cenedlaethol
mewn chwaraeon

Darparwr o'r safon
uchaf ar wasanaethau
i chwaraeon

Cyflenwr swyddogol
ymchwil cymhwysol

Ein Hymrwymiad

Adrodd stori bwerus
chwaraeon

Arwain datblygiad
chwaraeon ym
mhob cymuned

Galluogi llwyddiant ar
y llwyfan rhyngwladol

Paratoi chwaraeon ar
gyfer llwyddiant

Creu sefydliad gwyb

Ein Gwerthoedd

Gwaith Tîm - Pŵer
cydweithio

Cyflawni - Gwneud
gwahaniaeth

Uchelgais - Ceisio
llwyddiant

Llywodraeth Cymru

Mae popeth mae Chwaraeon
Cymru'n ei wneud yn gysylltiedig
â strategaeth y llywodraeth
(‘Ffyniant i Bawb’) a'i
deddfwriaeth (Deddf
Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol 2015)

Y Bwrdd

Y GPS:
Mae'n penderfynu ar y
cyfeiriad sefydliadol,
yn cynllunio ar gyfer y
dyfodol ac yn monitro
cynnydd

Tîm Arweinyddiaeth

Y gêrs a'r pedalau: Arwain,
rheoli a chefnogi'r tîm
gweithredol. Cefnogi a
herio'r tîm Cyfarwyddwyr

Tîm Gweithredol

Yr injan: Datblygu
a darparu
gwasanaethau/
allbwn safonol i
bawb

Tîm Cyfarwyddwyr

Y llyw: Gosod y nawws,
arwain y busnes a
sbarduno cyflawni'r
strategaeth

Trosolwng Perfformiad

Adolygiad Blynyddol 2017-18



Yn 2017/18

rydyn ni wedi dyfarnu mwy nag

£1.6 miliwn i 1,349

o sefydliadau

i gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a
Chwaraeon Cymru wedi datblygu

Cynllun Gweithredu ar y Cyd

Sefydlwyd

**Tîm Ymgynghorol Cenedlaethol ar
gyfer Llythrennedd Corfforol**

2,522

o aelodau o gymunedau DLIE wedi cymryd
rhan mewn chwaraeon diolch i'r

rhaglen BME Sport Cymru



80%

o'n staff ni wedi
cael hyfforddiant
arweinyddiaeth
gyda CMI



Y galw cudd yn uchel o hyd –

58% of adults

eisiau gwneud mwy o
weithgarwch corfforol

Adolygiad Chwaraeon Cymru

Drwy'r Adolygiad Annibynnol o Chwaraeon Cymru ym mis Gorffennaf 2017, cafwyd gwybodaeth werthfawr am gryfhau ein darpariaeth, ein partneriaethau a'r sector.

Seiliwyd yr heriau a amlinellwyd ar ymgysylltu ac ymgynghori eang, gan edrych ar ein rôl unigryw ym mywyd cyhoeddus Cymru. Rydym yn croesawu'r argymhellion ac rydym wedi eu cynnwys yn ein rhaglen waith ar gyfer eleni a thu hwnt.

Hefyd amlinellodd y Gweinidog bedwar maes ffocws i Chwaraeon Cymru:

- 1** Cael mwy o bobl i fod yn egniol ym mhob cam o'u bywydau – yn yr ysgol, wrth adael addysg, mewn gwaith, gyda'r teulu ac ar ôl ymddeol.
- 2** Buddsoddi ymdrech ac adnoddau lle mae eu hangen fwyaf – lle ceir amrywiaethau sylweddol mewn cymryd rhan a diffyg cyfle neu ddyhead i fod yn egniol.
- 3** Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant, gan helpu ysgolion i addysgu sgiliau iddynt a sicrhau gwybodaeth, cymhelliant a hyder er mwyn iddynt fod yn egniol a pharhau i fod felly.
- 4** Helpu chwaraeon i feithrin, datblygu a chefnogi talent er mwyn cyflawni llwyddiant sy'n ysbrydoli pobl ac yn cadarnhau ein hunaniaeth fel cenedl.

Mae'r cyfeiriad clir hwn ar gyfer Chwaraeon Cymru a chwaraeon yng Nghymru'n hwb mawr i ni ac yn ein cefnogi a'n sbarduno i gynyddu effaith chwaraeon a hamdden gorfforol.

Yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Chwaraeon Cymru ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol chwaraeon yng Nghymru.

Cynhaliwyd Chwaraeon a Fi_Y Sgwrs rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Chwefror 2018 a chyrrhaeddodd bobl o gymunedau ledled Cymru.

5

o ddigwyddiadau i randdeiliaid allanol



Cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda Phrif Weithredwyr ac Arweinwyr Cynghorau

15

o sgysiau grŵp gyda grwpiau a dangynrychiolir sy'n gweld eu hunain fel grwpiau nad ydynt yn hoff o chwaraeon, wedi'u hwyluso gan Barod

600

o Sgysiau



Sgysiau strwythuredig gan staff Chwaraeon Cymru ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau;

Cyfrannodd llawer at y sgwrs genedlaethol

130,007

o Argraffiadau

5%

o Gyfradd clicio drwodd

6,495

o Gliciau

308

o Oriau cyswllt

Cyfradd ryngweithiol o gymharu â meincnod o

59.42%

50.90%

MY WELSH SPORT _THE CONVERSATION

Shape the
future of sport
in Wales.

CHWARAEON A FI _Y SGWRS

Cyhoeddwyd canlyniadau

Chwaraeon a Fi_Y Sgwrs

ym mis Mawrth 2018, yn dilyn cyfnod ymgynghori
ym mis Ebrill.

Roedd yn glir bod pobl eisiau ymwneud â chreu cynllun ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yn hytrach na disgwyl i ni greu cynllun Chwaraeon Cymru. Mae'r 'weledigaeth ar gyfer chwaraeon' yn y dyfodol ar gyfer pawb ac mae'n bwysig ein bod yn ei chreu a'i pherchnogi gyda'n gilydd. Rydym yn disgwyl ei chyhoeddi yn haf 2018.

Partneriaid Gwych



Buom yn gweithio gyda'r Bwrdd i gael barn y dinasyddion drwy Sgyrsiau Siop Goffi fel dull o weithredu. Dechreuodd y Sgwrs yn Ysgol Gynradd Mount Pleasant yng Nghaerdydd gyda'r plant yn rhannu straeon am beth mae chwaraeon yn ei olygu iddyn nhw.



Cael Gwared ar Rwystrau Cydraddoldeb i Bawb


Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydym wedi sbarduno diwylliant sefydliadol drwy newid systemau, ffyrdd o weithio ac ymddygiad i ymgorffori'r amcanion yn ein DNA. Gellir gweld adroddiadau cydymffurfio Chwaraeon Cymru drwy ddilyn y ddolen yma:

Mewn cydweithrediad newydd ac arloesol, mae gan Chwaraeon Cymru rôl strategol i'w chwarae fel rhan o'r prosiect Celf y Posibl. Mae'r prosiect yn helpu cyrrff cyhoeddus i wneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn real drwy dynnu sylw at y gwaith gwych sy'n gwella lles mewn cymunedau ledled Cymru.

Deddf Cydraddoldeb, 2010 Amcanion Cydraddoldeb Chwaraeon Cymru

- 1 Deall proffil amrywiol y seilwaith chwaraeon
- 2 Casglu ymchwil seiliedig ar wybodaeth i ddeall yn well sut i leihau anghydraddoldeb mewn chwaraeon cymunedol
- 3 Gweithio gyda sefydliadau amrywiol
- 4 Dangos amrywiaeth mewn chwaraeon
- 5 Datblygu gweithredu positif i leihau anghydraddoldeb mewn chwaraeon cymunedol
- 6 Creu gweithlu amrywiol ac ymwybodol o gynhwysiant mewn chwaraeon cymunedol
- 7 Deall proffil amrywiol athletwyr a gweithlu elitaidd
- 8 Sefydlu system perfformiad uchel sy'n ymateb i anghenion athletwyr sy'n newid
- 9 Sicrhau bod amgylcheddau a rhaglenni elitaidd yn gynhwysol
- 10 Ymgorffori cydraddoldeb a diogelu yn systemau llywodraethu sefydliadau chwaraeon yng Nghymru
- 11 Creu diwylliant yn Chwaraeon Cymru sy'n ymateb i anghenion unigol.



Nod Llesiant 1

Pobl yng Nghymru'n byw bywydau egniol yn gorfforol ac felly iachach.

Nod Llesiant 2

Plant a Phobl Ifanc â chymhelliant, sgiliau corfforol, gwybodaeth, dealltwriaeth a chyfluoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am oes.


Nod Llesiant 3

Cymru'n cael ei chydabod yn rhyngwladol fel cenedl chwaraeon lwyddiannus. .


Nod Llesiant 4

Chwaraeon Cymru yn batrwm o sefydliad sy'n sbarduno diwylliant sy'n hybu llesiant, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Safonau diogelu



Safon Cydraddoldeb



Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Yn yr Arolwg ar Ddefnyddwyr y Ganolfan ym mis Tachwedd 2017, gwelwyd lefelau da neu dda iawn o foddhad gyda lefelau o

86% ar gyfer mynediad i anabledd;

79% ar gyfer symud o amgylch y ganolfan i anableddau

88% ar gyfer cyfleusterau newid a chyfleusterau anabledd eraill.

Amrywiaeth Bwrdd Chwaraeon Cymru

Rydyn ni wedi gwella

	Gwryw	2011	Benyw
	85%		15%
	Gwryw	2017	Benyw
	50%		50%

Grŵp Rhannu'r Sector Cyhoeddus

Aethom ati i sbarduno datblygu grŵp rhannu sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan ddod â sefydliadau at ei gilydd i weld sut i gyflawni'r Nodau Llesiant yn well. Roedd y gwaith cynnar yn cynnwys cefnogaeth i aelodau Bwrdd i graffu'n well yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Partneriaid Gwych

"Mae cydweithredu â sefydliadau cenedlaethol eraill i edrych ar ffyrdd o gyflawni'r Nodau Llesiant a'r egwyddor cynaliadwyedd yn fuddiol iawn i Amgueddfa Cymru. Mae'n rhoi i ni fforwm i edrych gyda'n gilydd ar fanylion y Ddeddf ac ystyried ffyrdd o sicrhau bod ein strategaethau'n cyd-fynd er lles ehangach pobl Cymru."

Nia Williams, Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymgysylltu Amgueddfa Genedlaethol Cymru

national
museum
wales
cymru
amgueddfa

Oedran ddim yn rhwystyr i atal cymryd rhan mewn chwaraeon

Pobl Hŷn

Mae gweithio gyda chyrrff rheoli cenedlaethol ar ddatblygiadau fel pêl droed a hoci yn cerdded yn golygu bod pobl yn gallu concro unigrwydd a mwynhau heriau newydd.

Partneriaid Gwych



National Public Health Service for Wales
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru

Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar gyfer Cymru, mewn partneriaeth â Thîm Gweithredu Byth Rhy Hen Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal y "Gemau Olympage" i bobl hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cymerodd mwy na 100 o bobl hŷn ac anabl ran yn y gemau eleni, gan ddangos nad ydyn nhw'n rhy hen i fynd am yr aur.

Plant

Rydym yn gweithio'n agos â'r Comisiynydd Plant gyda ffocws ar Hawliau Confensiwn y CU i blant a datblygu'r genhedlaeth nesaf.



Gweithlu ifanc hynod fedrus ac angerddol sy'n barod i gefnogi'r sector



Gall dealltwriaeth o sut datblygodd sgiliau fel Llysgennad / Arweinydd Ifanc gael ei throsglwyddo i Brifysgol a chyfflogaeth

Rhaglen y Llysgenhaddon Ifanc

Yn cael ei chefnogi gan y 22 awdurdod lleol, mae Rhaglen y Llysgenhaddon Ifanc yn bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru a'r Youth Sport Trust.



Mwy o gymhelliant i wella eu lles eu hunain a lles eraill



Hyder a chyfres o sgiliau personol

Partneriaid Gwych



sportwales
chwaraeoncymru

Yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth gyda'r Youth Sport Trust a gyda chefnogaeth 'Arweinwyr Tîm' cyn-aelodau'r Llysgenhaddon Ifanc, mae 40 o bobl ifanc wedi cwblhau rhaglen yr NLA i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys cyfathrebu, hwyluso, gwaith tîm a gwneud penderfyniadau.

Yn yr adborth rhoddodd 57% o'r gyfranogwyr 10/10 i'r profiad a rhoddodd 43% ohonynt 9/10 iddo.

"Mae'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol wedi rhoi cyfle i mi gael 'teulu' arall ac rydw i'n gobeithio dal ati gyda fy llwybr dysgu am flynyddoedd i ddod. Rydw i wedi dysgu cymaint ond dydi e ddim wedi teimlo fel dysgu."

Adborth gan gyfranogwr yr Academi





**“Roedden ni eisiau gwneud
pobl yn gyfforddus yn arwain
criced yn defnyddio’r Gymraeg”**

Aled o sefydliad Criced Cymru

Yr Iaith Gymraeg

Daeth Safonau newydd yr Iaith Gymraeg ar gyfer Chwaraeon Cymru i rym ym mis Ionawr 2017 gan ailgadarnhau ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynyddwyd ein buddsoddiad yn yr Urdd yn 17/18 ac rydym yn parhau i gefnogi Gemau Cymru – y digwyddiad aml-chwaraeon mwyaf yng Nghymru – fel rhan o'r llwybr perfformio ar gyfer athletwyr Cymru.

Archwiliad Arweinyddiaeth Cymru 2016 – Mae archwiliad 2016 yn darparu gwybodaeth ansoddol am amrywiaeth Uwch Dimau a Byrddau Arwain ar draws 43 o Gyrrff Rheoli Cenedlaethol a gyllidir gan Chwaraeon Cymru yng Nghymru.

Yn 2016/17, cwblhaodd 42 o aelodau o staff yr hyfforddiant Iaith Gymraeg.

Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Chwaraeon Cymru:

30 o staff llawn amser sy'n siaradwyr Cymraeg

37 o staff achlysurol/tymhorol sy'n siaradwyr Cymraeg



13 o geisiadau'r Gist Gymunedol wedi'u gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg

47 o sefydliadau'n

cynnal eu gweithgarwch chwaraeon yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg

242 o sefydliadau

cynnal eu gweithgarwch chwaraeon yn ddwyieithog

187 o sefydliadau'n

hefyd yn credu y bydd ein grant yn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu sefydliad

Partneriaid Gwych

Clwb Gymnasteg Gwyn Jim

Pan oedd rhestr aros i ymuno â chlwb gymnasteg lleol yng Ngogledd Cymru'n fwy na dwy flynedd, aeth Gwyn Owen ati i gynnal ei sesiwn ei hun i'w fab a'i ffrindiau. Bum mlynedd yn ddiweddarach ac mae'r clwb bellach yn ffynnu ac yn elwa o Grant Datblygu Chwaraeon Cymru ar gyfer cyfleusterau ac offer, gan alluogi'r clwb i gynnig sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y gymuned gyfan.

youtu.be/cokwvk_R5-w



Creu cymunedau egniol, iach a ffyniannus

Trechu Anghydraddoldeb drwy weithredu positif

Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn parhau'n heriau allweddol. Mae gan Chwaraeon Cymru swydd arwain yn y sector ac mae wedi gweithio gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) i nodi polisiau a chamau gweithredu a all gynyddu cynhwysiant.

Rydym wedi cefnogi CRhC i gyflwyno hyfforddiant ar gydraddoldeb



**Ymwybyddiaeth
iechyd meddwl**
Pêl Rwyd Cymru i staff




Nofio Cymru Bwrdd newydd gyda
**chynrychiolaeth
gyfartal i'r
rhywiau, a hefyd
cynrychiolaeth LHDT
ac anabledd.**



Pêl Droed v Homoffobia
Cymdeithas Bêl Droed Cymru
ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas
Bêl Droed Cymru



Triathlon Cymru
Mwy o ferched
ar gyrsiau hyfforddi'n gysylltiedig
â'r rhaglen 'Go-Tri'




Gymnasteg Cymru
Cyflwyno Gwobr
'Clwb Cynhwysol'
blynyddol



Cynyddu'r gweithgarwch rheolaidd ac aml sy'n digwydd ledled Cymru

Yn ei thrydedd flwyddyn bellach, mae rhaglen £3m Galw Am Weithredu (C4A) yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal grwpiau rhag cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol.

Mae'r cam hwn o C4A yn targedu grwpiau a dangynrychiolir yn benodol ac yn rhoi **cyfleoedd iddynt i ddatblygu sgiliau a hyder priodol i fod yn egnïol yn gorfforol.**



Grymuso merched a genethod

Ymgyrch yw 'Sgwad Ni' i godi ymwybyddiaeth o chwaraeon merched – rhan o'n dull strategol o gynyddu ymwneud merched a genethod â chwaraeon a hamdden gorfforol.

OUR
SQUAD

Mae'r ymgyrch yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at ferched o bob cefndir sy'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, gan gael gwared ar y syniad o chwaraeon "ddim i mi".

Mae sianelau cyfryngau cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth am chwaraeon a gweithgarwch corfforol, sut i gymryd rhan mewn chwaraeon a chyngor ar gyfer dal ati i wella. Mae Sgwad Ni wedi datblygu i fod yn gymuned ar-lein gyda merched yn darparu cynnwys eu hunain ac yn cefnogi ei gilydd.

Ffi Davies ar Twitter:



Caru cymryd rhan gyda'r darn yma gan [@OurSquadCymru](#). Croeso cynnes gan [@HociCymric](#) abob amser pan symudais i i'r ddinas fawr! Byddaf yn aelod newydd eto ddydd Mercher gyda [@LadiesCRCC](#) os bydd dim rhew. Heb roi cynnig arni, fyddwch chi byth yn gwybod [#dewrder](#)

Partneriaid Gwych

Mae ein buddsoddiad yn Girl Guiding Cymru wedi galluogi 250 o arweinwyr o fwy na 150 o unedau lleol i gyflwyno gweithgareddau i tua 3000 o ferched. Mae 50 o "addysgwyr chwaraeon" (14 i 25 oed) wedi cael eu hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr i gefnogi gweithgareddau lleol ac mae mwy na 6000 o fathodynau "Rhoi Cynnig Arni" ar gyfer camp newydd wedi cael eu dyfarnu.



Ymweliadau unigol
â gwefan Sgwad Ni:

TARGED
5,300
CYFLAWNWYD
9,850

TARGED CYFLAWNWYD

Ymwneud uniongyrchol â'r
cyfleuster canfod camp:

TARGED
533
CYFLAWNWYD
646

TARGED CYFLAWNWYD

Edrych ar ffilm yr ymgyrch ar-lein:

TARGED CYFLAWNWYD
5,000 **36,000**

TARGED

CYFLAWNWYD



TARGED CYFANSWM FACEBOOK

Ymyriadau cyfryngau cymdeithasol:

TARGED
5,000

FACEBOOK YN UNIG WEDI CYFLAWNI

17,929

Gweithio mewn Partneriaeth

Iechyd Cyhoeddus

Mae Chwaraeon Cymru yn ymwneud â'r agenda iechyd a lles ar lefel genedlaethol a lleol.

Rydym wedi cysylltu – mae staff Chwaraeon Cymru'n aelodau o Grwpiau Llywio Byrddau Iechyd a'r Grŵp Cyfeirio at Ymarfer Cenedlaethol.

Eleni, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar y Cyd, gan sicrhau dull amlasiantaeth o gyflawni amcanion ein sefydliadau a sicrhau gwell effaith ar lefelau gweithgarwch corfforol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd yn ystyried Cynllun Gweithredu Byd Eang ar Weithgarwch Corfforol Sefydliad Iechyd y Byd ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'n gyson â themâu Cael Cymru i Symud. Mae'n cynnwys pedwar prif faes ffocws ac wedi'i ymgorffori yn strategaeth Chwaraeon Cymru a'i broses cynllunio busnes. Y nod yw creu (i) Cymdeithas (ii) Amgylcheddau (iii) Pobl a (iv) Systemau egniol.

Hefyd mae Chwaraeon Cymru wedi cyflwyno gweithdai ar feddwl iach, wedi ysgrifennu cynnwys ar gyfer y Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus ac mae'n rhan o'r grŵp strategol gordewdra yn ogystal â Cymru Well Wales.

Astudiaeth Achos

Y Bartneriaeth Chwaraeon Anabledd Iach: Yn gweithio mewn partneriaeth i drawsnewid bywydau pobl anabl drwy bŵer chwaraeon.

Mae'r bartneriaeth tair blynedd yng ngogledd Cymru rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chwaraeon Anabledd Cymru'n esiamp

bositif o iechyd a'r sector gweithgarwch corfforol yn cydweithio er mwyn gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru, yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae'n dod â chyrrff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol, gweithgarwch corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a phartneriaid yn y trydydd sector at ei gilydd.

Wedi gwella sgiliau

1300

o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a

50

o staff NERS

700

o bobl anabl

wedi'u cyfeirio at weithgarwch corfforol

(gan gynnwys chwaraeon)

Partneriaid Gwych

BILI
Aneurin Bevan



Mae manteision cynyddu gweithgarwch corfforol wedi'u cynnwys yn nadansoddiad sefyllfaol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen ac mae'n sail i gynlluniau llesiant statudol. Yn flaenorol, ystyriwyd manteision cynyddu gweithgarwch corfforol mewn termau iechyd posib yn unig, heb lawer o ystyriaeth i fanteision ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Nawr bydd cynyddu gweithgarwch corfforol yn cael ei ystyried yn nhermau camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu mewn partneriaeth.

A high-angle, action shot of a kayaker navigating a turbulent section of a river. The kayaker is wearing a bright yellow helmet and a matching yellow jacket with orange accents. They are seated in a blue and purple kayak, which is splashing through white water. The kayaker's right arm is extended, holding a red paddle blade. The background shows dark, rocky riverbeds. The overall scene is dynamic and captures the intensity of whitewater kayaking.

**Mae pob £1 o fuddsoddiad
yn creu £124 o werth
cymdeithasol ychwanegol.**

Addysg

Mae llythrennedd corfforol yn helpu i ddylanwadu ar ddulliau gweithredu i gyflwyno'r cwricwlwm ac mae wedi ein helpu ni i greu a chefnogi ar draws cymunedau a sectorau. Rydym yn cydnabod y bydd unrhyw ymyriadau y tu allan i giatiau'r ysgol yn dasg anoddach heb ymgorffori llythrennedd corfforol yn narpariaeth y cwricwlwm.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, crëwyd y Siwrnai Llythrennedd Corfforol fel adnodd cynllunio cwricwlwm drafft ac, ar hyn o bryd, mae'n cael ei adolygu gan y tîm diwygio'r cwricwlwm.

Rydym yn gwybod na allwn gyflawni ei nodau ar ein pen ein hunain ac mae'r angen am gydweithredu wedi arwain at recriwtio Tîm Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Llythrennedd Corfforol. Rydym yn neilltuo'r tîm i sefydliadau sydd eisiau ein helpu ni i gyflawni nodau tymor hir a rennir.

Mae'r gwaith gyda'r sector addysg bellach wedi parhau eleni gyda'n buddsoddiad drwy Golegau Cymru, gan gefnogi colegau i gynnydd cyfranogiad mewn chwaraeon a gwirfoddoli gan grwpiau targed.

Ym maes Addysg Uwch, mae BUCSs Cymru wedi ailfrandio fel Chwaraeon Myfyrwyr Cymru - Welsh Student Sport, gan alluogi mwy o reolaeth a darpariaeth ehangach i fyfyrwyr gyda chwaraeon Prifysgol hamdden a chystadleuol.



Creu gallu – arweinyddiaeth wedi'i dosbarthu

“Arweinyddiaeth dda yw bod yn ddigon beiddgar i fod â gweledigaeth ac yn ddigon gwylaidd i gydnabod y bydd cyflawni hynny'n gofyn am ymdrechion gan lawer o bobl.”

Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Cymru.

Gan geisio gwneud gwir wahaniaeth, mae'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol angen arweinyddiaeth sy'n trawsnewid, yn ogystal ag arweinwyr y dyfodol. Rydym eisiau creu sefydliadau cadarn a deinamig sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gymunedau Cymru.

Rydym wedi creu rhaglen ddatblygu deilwredig sy'n galluogi ein harweinwyr i greu diwylliant cynhwysol yn y sefydliad.

Arweinyddiaeth Weithredol a'r Rhaglenni Arweinyddiaeth

Datblygodd a chyflwynodd Chwaraeon Cymru ddwy raglen eleni – Arweinyddiaeth Weithredol (ar gyfer Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion) a'r Rhaglen Arweinyddiaeth (ar gyfer uwch reolwyr).

Cafodd gwerthusiad y rhaglenni effaith gref ar y cyfranogwyr a'u timau yn y gweithle. Cadarnhaodd pob un rheolwr llinell eu bod wedi gweld gwelliant sylweddol yn null arwain ei gyfranogwr ers y rhaglen.

“Mae'n bwysig bod pawb yn Chwaraeon Cymru yn gwybod pa mor bwysig yw'r rhaglen yma i'n harweinwyr ni. Mae'n hanfodol ei bod yn dod yn rhan o'n tirlun a'i bod yn cael ei gweld fel cyfrwng i newid pethau i arweinwyr yn ein sector.”

Cyfranogwr y Rhaglen Arweinyddiaeth

Gwerthoedd Chwaraeon Cymru



Gwaith Tîm

Pŵer cydweithio



Cyflawni

Gwneud gwahaniaeth



Uchelgais

Ceisio llwyddiant

Sy'n golygu ein bod yn ymrwymo i'r canlynol:

- Cael effaith bositif ar eraill, gan eu hannog a'u cefnogi yn ôl yr angen.
- Dathlu a chydabod ein llwyddiannau gyda'n gilydd
- Parchu eraill ac ennill parch
- Buddsoddi amser mewn gwrando'n astud a dod i adnabod y person nid dim ond yr wyneb
- Canolbwyntio ar beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf – dim ots pa mor fawr neu fach
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am ein cyflawniad a'n datblygiad ein hunain
- Ymddiried ym mhrofiad eraill i gyflawni'r dasg a defnyddio eu sgiliau
- Gosod ein safonau'n uchel a herio'n adeiladol
- Chwilio am syniadau ac arbenigedd newydd o bob cwr o'r byd a bod yn agored iddynt
- Mwynhau ac ymfalchïo yn y gwaith rydym yn ei wneud
- Bod yn ddewr i wneud pethau'n wahanol

A dyma'r Ymddygiad Arweinyddiaeth Gynhwysol sy'n sail i'n gwerthoedd ni:

HUNANYMWYBYDDIAETH:

monitro ein hymatebion ein hunain i unigolion neu grwpiau ac edrych ar unrhyw anghysonderau (rhagfarn anymwybodol)

EMPATHI: gwrando'n astud ar eraill a cheisio bob amser deall ac ymateb i sut maent yn teimlo

DERBYN: derbyn pobl, heb ragfarn. Herio unrhyw iaith a thynnu coes amhriodol gan eraill. Bod yn ddidwyll

CEISIO SAFBWYNTIAU AMRYWIOL:

ymwneud â rhwydweithiau amrywiol a mynd ati i edrych ar bersbectif unigolion

ADBORTH: rhoi adborth positif er mwyn meithrin hyder; ac ymestyn yr adborth i oresgyn rhwystrau a chreu cadernid

TWF: annog unigolion i wneud eu cyfraniad unigryw; hyfforddi a datblygu unigolion i wireddu eu llawn botensial

GWELEDIGAETH: creu sefydliad amrywiol, ymroddgar a thalentog sy'n arwain yn arloesol ac yn creu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol

ARWEINYDDIAETH GASGLIADOL: ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am sicrhau diwylliant cynhwysol a chefnogi a herio ein gilydd i gyflawni hyn

Er mwyn creu Diwylliant Cynhwysol lle mae bod yn unigolyn yn cyfrif.





Cydweithredu DLIE

Buddsoddodd Chwaraeon Cymru £500,000 yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ym mhrosiect BME Sport Cymru WCBA, gan feithrin gallu cymunedau DLIE i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol cynaliadwy drwy ddatblygu meysydd gwirfoddoli, hyfforddi, llywodraethu a chyllid.

Cyrhaeddodd BME Sport Cymru WCVA:

- Mwy na 2500 o bobl DLIE
- Cefndiroedd ethnig a chrefyddol amrywiol
- Gwahanol oedrannau a rhywiau
- Ardaloedd difreintiedig
- Rhai o'r cymunedau DLIE mwyaf anweithgar, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, Roma, Sipsi a Theithwyr

2,522 o aelodau o'r gymuned DLIE

wedi cymryd rhan mewn chwaraeon diolch i raglen BME Sport Cymru, yn dilyn mwy na

£500,000 o fuddsoddiad

yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf

Bron i £2.5 miliwn

wedi'i fuddsoddi yn y rhaglen

Galw Am Weithredu

gan gyllido prosiectau sy'n mynd ati'n benodol i drechu anghydraddoldeb mewn cymryd rhan mewn chwaraeon

Partneriaid Gwych

Canolfan Gydwethredol Cymuned Tsieineaidd Abertawe

Yng nghymuned Tsieineaidd glos Abertawe, llwyddodd swyddog prosiect i feithrin ymddiriedaeth drwy fuddsoddi amser yn y bobl leol a chefnogi cais i'r gist gymunedol am gwrs gwennol badminton. Yn ddiweddar, mae 14 aelod o Ganolfan Gydwethredol y Gymuned Tsieineaidd wedi cwblhau'r cwrs ac yn gallu helpu i gynnal sesiynau badminton yn y dyfodol yn awr.



Buddsoddi yng nghalon Cymunedau

Mae buddsoddiad rhagweithiol wedi bod yn gatalydd i annog mwy o bobl i fod yn egnïol.

Yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru gyda dyfarniadau o hyd at £1,500 y flwyddyn i glybiau lleol a grwpiau cymunedol, dosbarthir cyllid y Gist Gymunedol gan banelau cymunedol sy'n cynnwys pobl leol. Mae bron i 60 o wahanol chwaraeon yn cael eu cynrychioli gan gyllid y Gist Gymunedol a Rygbi, Pêl Droed a Chriced yw'r prif chwaraeon sy'n cael cefnogaeth.

O'r **£1.6 miliwn** a fuddsoddwyd mewn chwaraeon ar lawr gwlad eleni, mae **£360,000** wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n trechu anghydraddoldeb yn bendol.

Mae 80

yn brosiectau anabled

Mae 823 o'r grantiau

a ddyfarnwyd yn cael effaith bositif ar 'Bobl Ifanc ac Oedolion Wedi Gwirioni ar Chwaraeon am Oes'

Mae 235 o'r grantiau

a ddyfarnwyd yn 'Targedu'r Bwlch mewn Anghydraddoldeb yn Bositif'

Mae 296 o'r grantiau

a ddyfarnwyd yn helpu i 'Ddarparu Llwybr Chwaraeon Cyflawn'

Roedd 201

dyfarniad ar gyfer prosiectau'n benodol ar gyfer **Merched a Genethod**





Ffordd newydd o ddarparu Chwaraeon Gogledd Cymru

**Rydym eisiau datblygu sector chwaraeon mwy
cynaliadwy, atal problemau rhag gwaethygu a lleihau'r
bylchau mewn lefelau cymryd rhan.**

Yng Ngogledd Cymru, datblygwyd achos busnes cadarn yn seiliedig ar yr achos strategol, economaidd, masnachol, rheoli ac ariannol dros newid gan Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid. Mae cymeradwyaeth wedi'i rhoi i profi Chwaraeon Gogledd Cymru ar y farchnad ac, yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan Lywodraeth Cymru, bydd Chwaraeon Cymru yn caffael asiantaeth newydd i weithredu Chwaraeon Gogledd Cymru o 2018/19 ymlaen. Y neges glir o'r ymgynghori oedd bod gweithio gydag asiantaeth newydd yn gyfle cyffrous ac arloesol i bob partner.



chwaraeeichrhan.cymru

Profi Marchnad Chwaraeon Gogledd Cymru

- 4 digwyddiad ymgysylltu ledled y rhanbarth
- Cyfraniadau gan fwy na 250 o bobl
- Ymwneud â phob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru

Cyflawni Llwyddiant Rhyngwladol a hybu Cymru i'r Byd



"Mae popeth am Gymru'n ymwneud ag angerdd a balchder i gynrychioli'r wlad a phan rydyn ni'n gwisgo'r crys yna, does dim anrhydedd fwy i ni."










- Gareth Bale, Ewro 2016

Digwyddiadau Mawr

Mae gan Gymru enw da sy'n destun eiddigedd am gynnal digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae achlysuron fel Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA, Gemau prawf criced, rygbi'r 6 Gwlad a gornestau bocsiio i gipio Teitlau Byd yn creu effeithiau cymdeithasol, economaidd a chwaraeon. Maent yn ysbrydoli ein cymunedau ni ac yn arddangos Cymru i'r byd.

Tabl Elitaidd

	2006	2008
Gemau'r Gymanwlad	   2 7 10	
Y Gemau Olympaidd		   2 0 0
Y Gemau Paralympaidd		   10 3 1

Perfformiad o Safon Byd

Mae gennym berfformwyr o safon byd yn cynrychioli Cymru ar lwyfan y byd mewn amrywiaeth o chwaraeon. Fel gwlad fechan, rydym yn rhagori ar ddisgwyliadau. Ein ffocws eleni oedd paratoi ein tîm o safon byd ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd y Gaeaf a Gemau'r Gymanwlad yn 2018.

Mae pob un athletwr sy'n cystadlu'n dangos y cyfoeth o waith tîm cydweithredol sy'n digwydd i sicrhau llwyddiant. Mae mwy na 70 o athletwyr a'u hyfforddwyr yn cael gwasanaethau cefnogi perfformiad gan Athrofa Chwaraeon Cymru. Rydym yn eu cefnogi i gyflawni eu potensial a gall yr egwyddorion rydym yn eu rhoi ar waith gydag athletwyr talentog fod o fudd i bawb.







Gyda phoblogaeth o ychydig dros dair miliwn, nid yw Cymru'n gallu fforddio colli talent. Drwy well dealltwriaeth o beth sy'n gweithio mewn chwaraeon perfformiad uchel, rydym wedi datblygu ein gallu i fesur effaith a bod yn sail i ymyriadau yn y dyfodol.

Yn dilyn y llwyddiannau a dorrodd bob record yng Ngemau Cymanwlad Glasgow a Gemau Olympaidd

a Pharalympaidd Rio, comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r strategaeth chwaraeon Elitaidd gan ymgynghoriaeth GST. Yn dilyn Gemau Glasgow, newidiodd yr Athrofa ei phwyslais yn fwrriadol, gan geisio canolbwyntio cymaint ar ddylanwadu ar ddatblygu athletwyr yn gynharach yn eu gyrfa â chreu athletwyr ar lefel medal. Rôl GST oedd edrych gyda'n partneriaid allweddol nid yn unig ar sut oedd y newid hwn yn datblygu, ond hefyd edrych ar eu hymrwymiad iddo.

Mae'r tîm Perfformiad Uchel wedi newid y ffocws yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddatblygu system a fydd yn sicrhau llwyddiant i Gymru mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn buddsoddi mewn chwaraeon, nid dim ond medalau.

Yn ystod yr wyth mlynedd ers lansio'r strategaeth chwaraeon elitaidd wreiddiol rydym wedi gweld mwy o lwyddiant nag erioed ar lefel Cymanwlad, Olympaidd a Pharalympaidd. Hefyd mae nifer yr enillwyr medalau benywaidd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn gydag, er enghraifft, 80% o'r medalau Olympaidd a enillwyd gan athletwyr Cymru yng Ngemau Olympaidd Rio wedi'u hennill gan athletwyr benywaidd.

2010	2012	2014	2016
 2 5 12		 5 11 20	
	 3 3 1		 4 6 0
	 3 3 8		 5 4 0

Nofio Cymru – newid yn y dull o ddatblygu perfformiad gyda champ

Aeth ein Seicolegwyr Chwaraeon ati i weithio gyda hyfforddwyr Nofio Cymru i sefydlu fframwaith 'Ymddygiad Llwyddiannus' yn rhoi sylw i'r anghenion gofynnol i lwyddo mewn bywyd ac yn y pwll – sgiliau cyfathrebu, hunanymwybyddiaeth, gallu gwneud penderfyniadau. Wedi'i ddatblygu gydag athletwyr iau, hyfforddwyr a rhieni, cyflwynir y fframwaith mewn penwythnosau sgwad fesul cam. Mae nofwyr yr academi sgiliau a rhieni'n dysgu mewn fformatau grŵp gyda chefnogaeth unigol fwy teilwredig yn cael ei darparu i nofwyr ar lefel uwch.

Partneriaid Gwych

Mae bocsio'n helpu i drawsnewid bywydau ifanc drwy ddarparu amgylchedd o ffocws, disgyblaeth a chyflawni. Mewn partneriaeth, mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio ar brosiect sy'n integreiddio gwasanaethau cefnogi perfformiad yn sefydliad Bocsio Cymru.



Gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Darparu cyfleusterau hyfforddi a pharatoi penodol.
- Cynllunio a chyflwyno rhaglenni gan ymgynghori â'r staff perfformiad.
- Cyflwyno gwasanaethau gwyddoniaeth a meddygaeth chwaraeon fel rhan o dîm Bocsio Cymru.
- Gweithio gyda grwpiau iau o focsywyr a hyfforddwyr i gyflwyno arferion da'n gynharach yng ngyrfa bocsiwr ifanc.

Cyfleusterau Ar gael, fforddiadwy a hygyrch

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o bartneriaid – gan gynnwys cyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol – i sicrhau bod gennym ni gyfleusterau chwaraeon fforddiadwy a hygyrch ar gael ledled Cymru i glybiau a grwpiau cymunedol.

Rydym wedi gweithio ag Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl Droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Hoci Cymru i gynllunio'n strategol ac i ddarparu cyngor arbenigol i gaeau 3G artiffisial yng Nghymru, gan fonitro effaith ein buddsoddiad.

Mae Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl Droed Cymru'n treialu gwaith gyda chynghorau ledled Cymru i greu cynlluniau cyfleusterau lleol, pennu gweledigaeth tymor hir i warchod a denu buddsoddiad mewn

cyfleusterau a hefyd darbwyllo ysgolion i agor eu cyfleusterau at ddefnydd y gymuned – gan helpu gydag anghenion cymunedol a chyfrannu at Gymru iachach.

Er mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw penderfynu ar ystod, cost a hygyrchedd y cyfleusterau chwaraeon o dan ei reolaeth, byddwn yn parhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn gwarchod mynediad i'r holl gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru.

Dadansoddi Perfformiad

Mae Chwaraeon Cymru yn cynhyrchu Ystadegau Swyddogol ac, o'r herwydd, rydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae ystadegau swyddogol yn ased cyhoeddus hanfodol ac yn ddrych o gymdeithas gan chwarae rhan allweddol yn y penderfyniadau mae sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau'r llywodraeth a sefydliadau eraill yn eu gwneud.

Rhaid i'n hystadegau – a'n data yn fwy cyffredinol – ennyn hyder y cyhoedd. Rhaid iddynt fod o werth cyhoeddus, o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy.

Mae dysgu a gwerthuso'n rhan hanfodol o'n dull o weithio. Rydym yn cynnwys llawer mwy ar ddinasyddion a defnyddwyr wrth i ni esblygu. Ymhlith yr esiamplau diweddar mae ein dull o fuddsoddi mewn chwaraeon cymunedol yng Nghymru a datblygiad y weledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.


% yr oedolion yng Nghymru sydd wedi cymryd rhan (yn ôl camp) yn ystod y pedair wythnos flaenorol.

Gweithgaredd chwaraeon	Cymru (%)	Gwryw (%)	Benyw (%)
Cerdded (mwy na 2 filltir)	34	32	36
Nofio (dan do ac awyr agored)	14	12	16
Campfa neu ddsbarth ffitrwydd	14	13	14
Athletau/Rhedeg (unrhyw fath)	14	15	12
Loncian	10	11	10
Pêl Droed (dan do, awyr agored neu futsal)	9	15	3
Unrhyw feicio	9	13	5
Rhedeg ffordd / traws gwlad	6	8	4
Pŵl	6	9	3
Crwydro/cerdded mynyddoedd a bryniau	5	6	5
Golff (gan gynnwys taro a phytio)	5	9	2
Dawns (unrhyw)	4	1	7

Eleni comisiynwyd adolygiadau annibynnol gennym o'r Fenter Nofio Am Ddim a'n Rhaglenni Chwaraeon i Bobl Ifanc. Bydd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiadau hyn yn helpu i ddylanwadu ar ein strategaeth a'n cynigion ar gyfer chwaraeon cymunedol yng Nghymru.

Hefyd rydym wedi comisiynu Prifysgol Sheffield Hallam i lunio elw cymdeithasol ar fuddsoddiad ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ac asesu ei bwysigrwydd economaidd. Gyda'i gilydd, bydd y ddwy elfen yn fesur cyfannol o werth chwaraeon yng Nghymru.

Amledd y cymryd rhan (cyfartaledd yr wythnos)



Edrych Ymlaen

Ar ddechrau 2018/2019 bydd llygaid pawb yn troi at yr Arfordir Aur wrth i'n tîm ni yng Ngemau'r Gymanwlad berfformio ar lwyfan y byd. Beth bynnag fydd y canlyniadau, rydym yn gwybod y bydd ein tîm perfformiad uchel yn gwella gyda phrofiad ac yn datblygu'r sgiliau gofynnol i fod yn llwyddiannus mewn bywyd.

Wrth i'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru gael ei llunio'n derfynol yr haf hwn, bydd y strategaeth newydd ar gyfer Chwaraeon Cymru'n dechrau dod i'w lle hefyd. Bydd hwn yn gynllun tymor hir i arwain ein gwaith a bydd yn cyd-fynd yn glir â'r weledigaeth newydd.


Byddwn yn gwranddo, cynnwys ac ymgynghori ar ddatblygiad y strategaeth newydd. Bydd yn amlinellu ein dulliau newydd o weithredu, darparu a gweithio i greu atebion cynaliadwy i heriau yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau sylfaenol yn y dyfodol, fel blaenoriaethau buddsoddi a chyfres sgiliau ein sefydliad, yn cael eu harwain gan y strategaeth newydd.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o newid i Chwaraeon Cymru ond does dim modd i ni stopio nawr. Byddwn yn parhau i foderneiddio, hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a lles ac ysbrydoli'r sector i fod yn batrwm o gydweithredu ac o greu ar y cyd.

Mae ein haelodau bwrdd a'r cadeirydd newydd yn ymuno â Chwaraeon Cymru ar adeg bwysig, gan gynnig cyfoeth o brofiad o weithio gyda chymunedau sy'n tangyfrangi, yn ogystal â dealltwriaeth o anghenion athletwyr elitaidd. Rydym yn edrych ymlaen at weld effaith eu gwybodaeth a'u persbectif amhrisiadwy wrth i ni ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, y strategaeth fusnes a'r strategaeth gorfforaethol newydd.

Yn olaf, rydyn ni eisiau talu teyrnged i'r holl bartneriaid sy'n gweithio gyda ni – heb wybodaeth, angerdd a sgiliau pob unigolyn sy'n gweithio yn y byd chwaraeon neu sefydliadau partner yng Nghymru, ni fyddem wedi gallu gwneud cymaint o gynnydd. Rydym yn gwerthfawerogi eich cyfraniad a'ch cefnogaeth ac yn gwybod na allwn gyflawni ein nodau heb eich cymorth chi.

Diolch yn fawr.





Canlyniadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn

Roedd cyfanswm gwariant cynhwysfawr Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 yn £21,870,000 (2016/17 £22,986,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn (tudalen 62), ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn danwariant wedi'i gynllunio o £283,000 (2016/17 gorwariant wedi'i gynllunio o £341,000). Sicrhawyd y cynnydd o £283,000 ar ôl codi dibrisiant o £492,000 (2016/17 £532,000) ac i raddau helaeth, roedd yn unol â'r disgwyliadau.

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

Cynaliadwyedd

Mae Chwaraeon Cymru'n mynd ati i sefydlu polisiau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'r Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol yn ei lle'n llawn ar ôl cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd. Lleihaodd Chwaraeon Cymru ei allyriadau CO₂ 7% o gymharu â 2016/17, sy'n llawer uwch na'n targed o 3% o ostyngiad blynyddol.

Drwy gydol 2017/18, mae Chwaraeon Cymru wedi ceisio lleihau ei gostau teithio drwy annog staff i ddefnyddio cynadleddau fideo, Skype a Sharepoint. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y gost, y milltiroedd a'r allyriadau CO₂ cysylltiedig â theithio o gymharu â 2016/17 (gweler y tabl ar dudalen 38 am fanylion llawn).

Hefyd mae Chwaraeon Cymru'n dal i gynnig Cynllun Beicio i gyflogeion, i leihau'r defnydd o geir. Gall cyflogeion hawlio lwfans milltiroedd o 20c am bob siwrnai fusnes a wneir ar feic.

Mae Chwaraeon Cymru'n parhau â'i ymrwymiad i weithredu datrysiadau technolegol i helpu i leihau

allyriadau a gwastraff os yw hynny'n bosib, fel sgriniau deul i adolygu dogfennau yn hytrach na'u hargraffu, a thrwy hynny leihau costau papur ac argraffu. Anogir staff i weithio'n hyblyg os yw hynny'n bosib, ac mae hyn wedi arwain at staff yn gweithio o gartref yn fwy rheolaidd. Er nad yw hyn yn cael effaith ar y ffigurau milltiroedd a gofnodir isod (ni all staff hawlio costau milltiroedd am gymudo i'r gwaith), mae'n cyfrannu at lai o dagfeydd traffig ac allyriadau.

Gwelwyd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru'n lleihau ei Chyfradd Weithredol am Berfformiad Ynni (DEC) ryw ychydig yn ystod y flwyddyn ac mae'n parhau ymhell o dan y radd nodweddiadol ar gyfer y math o adeilad.

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y rhaglen o gyflwyno mesurau ynni effeithlon. Gosodwyd goleuadau LED mewn nifer o ystafelloedd cyfarfod, swyddfeydd, coridorau a grisiau. Adnewyddwyd naw ystafell wely arall i ddefnyddio'r system cerdyn allweddol i reoli ffitiadau trydan.

Mae'r ganolfan yn parhau i weithredu yn unol â chanllawiau Hierarchaeth Gwastraff ac mae'n gweithredu System Rheolaeth Amgylcheddol.

Roedd y gostyngiad sylweddol mewn casglu sbwriel o gymharu â 2016/17 oherwydd cael gwared ar nifer fawr o goed heintus yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn 2017/18, cafodd 38% o holl wastraff y ganolfan ei ailgylchu. Er bod hwn yn ostyngiad ar yr 82% fel ffigur ar gyfer gwastraff ailgylchu yn 2016/17, y rheswm pennaf am hyn oedd oherwydd cael gwared ar goed heintus fel y cyfeiriwyd yn flaenorol.

Bu cynnydd mawr yn y defnydd o ddŵr o gymharu â 2017/18 ac ar ôl ymchwiliad trwyadl, ni chanfuwyd unrhyw ddŵr yn gollwng. Yn ystod y flwyddyn, cafodd mesurydd dŵr newydd ei osod yn ei le ac efallai mai dyma oedd yn gyfrifol am y cynnydd.

Mae Plas Menai wedi parhau i weithredu ei Bolisi Amgylcheddol ac mae'r adnewyddu parhaus ar yr adeilad wedi bod yn gyfle i uwchraddio i systemau mwy ynni effeithlon a adlewyrchir yn y gwelliannau a ddangosir yn y tabl. Mae'r gwelliannau yn 2017/18 wedi gweld ein gradd DEC yn gwella o F i E ac rydym yn gobeithio y bydd y mesurau a roddwyd ar waith yn ystod y 12 mis diwethaf yn dod â'r radd i D pan gyflwynir y dystysgrif newydd ym mis Mai 2018.

Mae'r gwaith o adnewyddu'r llety i gwsmeriaid ar y safle wedi'i gwblhau yn awr ac mae pob ystafell wedi'i ffitio â goleuadau LED ynni effeithlon a boeleri ynni effeithlon newydd.

Mae'r gwaith ar adnewyddu'r ganolfan wedi cymryd cam arall ymlaen hefyd gyda nenfydau ffug yn cael eu gosod yn y dderbynfa a'r ystafelloedd cyfarfod. Bydd hyn yn helpu gydag inswleiddio'r ganolfan a lleihau colli gwres, ac yn cyfrannu at leihau'r gwresogi yn ystod y 12 mis nesaf.

Ar yr un pryd, mae'r holl hen oleuadau halogen wedi cael eu newid am oleuadau LED. Os oedd hynny'n bosib, rydym wedi cyflwyno goleuadau sy'n gweithio gyda synwryddion.

Hefyd rydym wedi buddsoddi mewn poptai nwy newydd. Mae LPG yn rhatach ac yn fwy ynni effeithlon na thrydan ac rydym yn gobeithio gweld gostyngiadau mawr yn ein defnydd o drydan yn ystod y 12 mis nesaf.

Yn amgylcheddol, rydym wedi cael gwared ar bob ffon blastig defnydd sengl ar gyfer troi eich paned, a'r holl gwpanau plastig, o'r ystafell fwyta.

Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i chwilio am gyllid ar gyfer gosod paneli solar yn eu lle a hefyd yn parhau â'n rhaglen o adnewyddu ac uwchraddio i oleuadau a systemau gweithredu mwy ynni effeithlon.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol


Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.

Gwastraff		2017/18	2016/17	2015/16
Heb fod yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm KG	59,121	158,580	68,390


Tŷ Gwydr		2017/18	2016/17	2015/16
Co2	Cyfanswm allyriadau crynswth (Co2)	1,150,352	1,236,258	1,292,550
	Cyfanswm allyriadau net (Co2)	1,150,352	1,236,258	1,292,550
	Allyriadau crynswth, sgôp 1	589,963	560,635	538,678
	Allyriadau crynswth, sgôp 2	560,389	675,623	753,872
Ynni	Trydan (heb fod yn adnewyddadwy)	1,594,006	1,639,661	1,631,087
kWh	Trydan (adnewyddadwy)	0	0	0
	Nwy	1,224,229	1,206,082	1,149,833
	Olew Nwy	1,321,260	1,225,689	1,205,087
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant - ynni	273,737	294,640	256,410

Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt	Dŵr	2017/18	2016/17	2015/16
Heb fod yn ariannol (M³)	Cyflenwyd	15,862	13,278	12,266
	Tynnwyd	3,663	2,075	2,514
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau cyflenwi dŵr	25,264	28,683	23,223

Teithio		2017/18	2016/17	2015/16
Co2	Rheilffordd	5,571	6,736	7,910
	Awyr	22,719	18,041	25,006
	Cwch	0	0	0
	Car (Tacsi/Bws ac ati)	164	422	277
	Defnydd o Gar Personol	31,726	41,986	40,746
	Cyfanswm	60,180	67,185	71,950
Cost	Rheilffordd	25,033	30,314	36,197
	Awyr	13,700	9,227	11,168
	Cwch	0	0	0
	Car (Tacsi/Bws ac ati)	925	2,278	2,076
	Defnydd o Gar Personol	49,970	63,281	63,214
	Cyfanswm	89,628	105,100	109,685
Milltiroedd	Rheilffordd	74,430	86,180	109,725
	Awyr	69,588	52,668	70,991
	Cwch	0	0	0
	Car (Tacsi/Bws ac ati)	578	1,562	1,063
	Defnydd o Gar Personol	110,197	139,479	139,064
	Cyfanswm	254,793	279,889	314,244

Allyriadau CO₂

Dangosyddion Ariannol



Cadwraeth a Bioamrywiaeth

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd, wedi'i lleoli mewn gardd restredig Gradd 2 ac mae gan y coed i gyd Orchmyinion Cadw Coed ac fe'u rheolir yn unol â'r gorchmyinion hyn.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol ym Mhlas Menai'n cynnal cyrsiau addysg amgylcheddol forol ar Afon Menai, mae wedi plannu ac yn rheoli coetir ac mae blychau adar wedi cael eu lleoli o amgylch y safle.

Caffael Cynaliadwy a'r Dyfodol

Mae polisi caffael Chwaraeon Cymru'n datgan ei bod yn ofynnol i'r holl ddyfarniadau caffael sy'n fwy na £25,000 gael eu dyfarnu ar y sail eu bod yn cynnig "cyfuniad optimwm o gostau bywyd cyfan a manteision i fodloni gofynion Chwaraeon Cymru". Mae costau bywyd cyfan yn ystyried nid dim ond y *pris prynu*, ond hefyd yn ystyried cost barhaus perchnogaeth, cynnal a chadw a defnyddio gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i weithio er mwyn ymgorffori polisiau cynaliadwy yn ein gweithrediadau. Yn benodol, rydym yn ymwybodol o effaith amgylcheddol ehangach ein gwaith a byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o ddylanwadu'n gadarnhaol ar hyn.

Swyddog Cyfrifo:

S Powell
9 Gorffennaf 2018

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Y Bwrdd

Yn ystod 2017/18, roedd Chwaraeon Cymru'n cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol:

Mr Lawrence Conway **	(Cadeirydd o 29.03.2017)
Ms Pippa Britton**	(Is Gadeirydd Penodwyd 01.10.2017)
Yr Athro John Baylis	(Wedi Ymddeol 31.08.2017)
Mr Simon Pirotte	(Wedi Ymddeol 31.08.2017)
Ms Amanda Bennett*	(Wedi Ymddeol 31.08.2017)
Mr Andrew Lycett*/**	(Wedi Ymddeol 31.08.2017)
Ms Julia Longville	(Ailbenodwyd 01.09.2015, Is Gadeirydd 17.04.2017 i 30.09.2017)
Ms Johanna Sheppard*	(Ailbenodwyd 01.09.2015)
Mr Peter King*	(Ailbenodwyd 01.09.2015)
Mr Richard Parks	(Ailbenodwyd 01.09.2017)
Ms Samar Small* (Wafa gynt)	(Ailbenodwyd 01.09.2017)
Mr Ashok Ahir *	(Penodwyd 01.10.2017)
Mr Ian Bancroft	(Penodwyd 01.10.2017)
Mr Christian Malcolm	(Penodwyd 01.10.2017)
Ms Alison Thorne*	(Penodwyd 01.10.2017)
Prif Weithredwr	Ms S Powell

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

** Aelod o'r Pwyllgor Tâl

Datgan Buddiannau

Mae holl Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn Sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2017/18. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24, yn cael ei datgelu yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisiau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

Canfod a Rheoli Risg

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 46.

Polisi Talu Cyflenwyr a'r Perfformiad a Gyflawnwyd

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Deddf Llog 1998), ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, talodd Chwaraeon Cymru 98% (2016/17 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr.

Offerynnau Ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.11 y datganiadau ariannol.

Tâl Archwilwyr

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo natur a swm y gwaith heb fod yn waith archwilio

a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2017/18, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1972, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiadau o gyfrifon ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei wariant net a'r newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifo addas ar sail gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a gadw at safonau cyfrifo priodol, a

datgelu ac egluro unrhyw wro sylfaenol yn y datganiadau ariannol; a

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Swyddog Cyfrifo:

S Powell
9 Gorffennaf 2018

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/2018

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

Llywodraethu Corfforaethol

Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru'n gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru'n cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth

Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdoriaid eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd. Yn dilyn yr Adolygiad Sicrwydd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2016/17, penodwyd Lawrence Conway fel Cadeirydd dros dro, am gyfnod o 12 mis i ddechrau, a chafodd y cyfnod hwnnw ei ymestyn i 18 mis wedyn tan Awst 2018. Cafodd y broses i benodi Cadeirydd parhaol o fis Awst 2018 ymlaen ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.

Yn ystod y flwyddyn, penododd Llywodraeth Cymru bum aelod Bwrdd newydd, sef Ashok Ahir, Pippa Britton, Ian Bancroft, Christian Malcolm ac Alison Thorne. Gadawodd pedwar aelod y Bwrdd, sef John Baylis, Amanda Bennett, Andrew Lycett a Simon Pirotte, wedi i'w tymor gwasanaethu ddod i ben. Diolchaf iddynt am eu gwasanaeth ymroddedig i Chwaraeon Cymru yn ystod eu tymhorau gwasanaethu a chrosawaf yr aelodau newydd yn gynnes.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ei Fwrdd, sydd bellach yn cynnwys 45% o ferched, 36% DLIE ac mae 9% yn ystyried eu hunain fel unigolion ag anabledd.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn y tabl isod.

Aelod Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 5)	Pwyllgor Archwilio a Risg (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4)
Lawrence Conway (Cadeirydd)	5 / 5	Amherthnasol
Pippa Britton** (Is Gadeirydd)	2 / 2	Amherthnasol
Amanda Bennett*	2 / 2	1 / 1
John Baylis*	2 / 2	Amherthnasol
Peter King	4 / 5	3 / 3
Simon Pirote*	1 / 2	Amherthnasol
Julia Longville (Is Gadeirydd Dros Dro 17.4.17 tan 30.9.17)	4 / 5	Amherthnasol
Andrew Lycett*	2 / 2	1 / 1
Johanna Sheppard	3 / 4	3 / 3
Richard Parks	4 / 5	Amherthnasol
Samar Small (Wafa gynt)	3 / 5	1 / 2
Ashok Ahir**	2 / 2	1 / 2
Ian Bancroft**	2 / 2	Amherthnasol
Christian Malcolm**	1 / 2	Amherthnasol
Alison Thorne**	2 / 2	1 / 2
(Aelodau Annibynnol – Pwyllgor Archwilio yn unig)		
Sandy Blair	Amherthnasol	2 / 3
Gareth Jones	Amherthnasol	4 / 4
Louise Casella	Amherthnasol	3 / 3
Robert Williams	Amherthnasol	1 / 1
Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb	83%	84%

* Aelodau wedi ymddeol 31.08.2017

** Aelodau a benodwyd 01.10.2017

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae dau bwyllgor parhaol wedi'u sefydlu; Y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl.

Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2017/18, nid oedd Chwaraeon Cymru'n ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd. Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, gyda Llawlyfr y Staff.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol);
- Mae'r risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i Gyfarwyddwyr Corfforaethol a manylir ar gamau gweithredu i liniaru ar y gofrestr risg.

Penododd y Bwrdd Peter King fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor i gymryd lle Andrew Lycett. Rydym yn ddiolchgar i Andrew am ei gyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad y Pwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

Ffarweliodd y Pwyllgor ag Amanda Bennett hefyd, a dau aelod annibynnol ers amser maith, sef Sandy Blair a Louise Casella. Dymuna'r Bwrdd fynegi ei werthfawrogiad am eu cyfraniadau.

Roedd y penodiadau newydd i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yr aelodau Bwrdd, Ashok Ahir, Samar Small ac Alison Thorne, ac aelod annibynnol newydd, Robert Williams.

Yn ystod 2017/18, cyflwynodd Chwaraeon Cymru 'Fframwaith Sicrwydd' i ategu'r broses rheoli risg. Pwrpas y Fframwaith yw cofnodi lefel y sicrwydd, yn fewnol ac yn allanol, yn y prosesau busnes

er mwyn darparu i'r Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd y sicrwydd gofynnol. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda thri'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod allanol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau'n 84%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli a sicrwydd risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- dogfen y Fframwaith Llywodraethu;
- cydymffurfiaeth reoleiddio;
- adolygu cyllid grant;
- adolygu systemau ariannol craidd;
- adolygu costau Aelodau'r Bwrdd;
- adolygu'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch;
- cytuno ar gynllun archwilio mewnol y flwyddyn.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd Archwilio'n cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2017/18, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth nac unrhyw wendidau rheoli arwyddocaol i adrodd yn ôl yn eu cylch ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymhell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 50.

Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Cynhelir cyfarfodydd misol ffurfiol sy'n dilyn agenda a chedwir cofnodion i sicrhau ein bod yn cofnodi penderfyniadau ar lefel gorfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd datblygu llywodraethu da'n parhau. Roedd yn ystyried yn fanwl y mesurau ar gyfer gwella'n barhaus. Roedd hyn yn cynnwys cydsynio'n ffurfiol i 'Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth' y sector ac, o dan gyfarwyddyd yr Is Gadeirydd, ymrwymo i ddatblygu cynllun llywodraethu cadarn a fydd yn cynnwys y ddwy broses ffurfiol, er enghraifft, adolygiadau effeithiolrwydd llawn o'r Bwrdd bob dwy flynedd, gwerthusiadau blynyddol ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd a hefyd datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cadw at y Fframwaith, sy'n cynnwys agweddau ymddygiad ar lywodraethu da.

Ar ddiwedd pob cyfarfod Bwrdd, mae'r Aelodau'n adlewyrchu ar fusnes ac yn trafod ffyrdd i'r Bwrdd fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn y byddai'n enwebu aelodau Bwrdd unigol i weithio'n agos ag aelodau'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, er enghraifft, y Prosiect Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol newydd.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd a maint yr wybodaeth a dderbynnir er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau doeth.

Rheoli Risg

Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisiau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cydfynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri

Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg. Rydym wedi cofnodi Polisi a Strategaeth Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut dylid canfod, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr neu gyfarwyddwr corfforaethol priodol a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y

penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw cyfarwyddwr corfforaethol a / neu reolwr.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein. Mae gwaith y Gofrestr wedi cael ei archwilio'n fewnol a'i gyflwyno i'r pwyllgor archwilio. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny. Mae'r Fframwaith Sicrwydd newydd yn cael ei adolygu mewn ffordd debyg gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg.

Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru'n cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru'n cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru'n ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Caffael

Cynhaliodd Archwilwyr Mewnol Chwaraeon Cymru adolygiad o'r gweithgarwch caffael yn ystod 2017/18. Roedd hwn yn dilyn yr archwiliad a gynhaliwyd yn 2016/17. Mae'n braf nodi, allan o'r un argymhelliad categori uchel a'r chwe chanolig a wnaed yn adroddiad y flwyddyn flaenorol, bod yr argymhelliad categori uchel wedi cael ei weithredu a phump allan o'r chwe argymhelliad categori canolig wedi'u gweithredu'n llawn. Ailgodwyd y tri argymhelliad sy'n weddill ynghylch sicrhau tri dyfynbris ysgrifenedig ar ôl profi. Yn ystod y flwyddyn, lluniwyd gweithdrefnau ariannol wedi'u diweddarau a'u dosbarthu i'r staff i gyd.

Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Cyfarwyddwyr, a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y risgiau a'r camau gweithredu i reoli risgiau yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ac yn gweithredu fel sy'n briodol.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan gan Chwaraeon Cymru ac maent wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gofforaethol.

Cafodd Chwaraeon Cymru'r cyfrifoldeb gan y Gweinidog am ymgynghori ar, a llunio, gweledigaeth newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Dilynir hyn gan ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Chwaraeon Cymru. Yn anochel, mae risgiau newydd yn gysylltiedig ag unrhyw strategaeth newydd arwyddocaol, ond mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori'n eang ar y ddwy strategaeth er mwyn llunio strategaeth gynhwysol yn unol â ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er bod Chwaraeon Cymru'n ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am hysbysu am gyllideb niwtral yn ariannol ar gyfer 2018/19 a dyraniad dynodol tebyg ar gyfer 2019/20, y gost ariannol gynyddol o fodloni taliadau diffyg pensiwn sy'n creu'r bygythiad mwyaf o hyd i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Y risgiau allweddol eraill sydd wedi'u datgan ar y Gofrestr Risg gorfforaethol yw'r rhai perthnasol i ddarparu strategaethau ac amcanion ein gwasanaethau cymunedol, elitaidd a chorfforaethol. Hefyd, mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru ers y 1af Ebrill 2016 yn golygu maes

newydd o gydymffurfio i Chwaraeon Cymru. Rydym wedi llunio casgliad o amcanion Llesiant sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn dilyn cyfnod o ymgynghori mewnol ac allanol. Maent wedi cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd ac maent ar ein gwefan ni.

Mae Chwaraeon Cymru'n gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), sy'n dod i rym ar 25ain Mai 2018.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru'n gweithredu'n effeithiol i'w rheoli ac yn ei gostwng i lefel ddiogel. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gynt yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, rydym yn edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead Risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol, am y drydedd flwyddyn yn olynol, wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr adroddiadau archwilio mewnol yn datgan cyfleoedd i wella'r systemau rheoli. Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw fater risg "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 24 o argymhellion a 9 pwynt gweithredu. O blith yr argymhellion, roedd 10 (42%) yn cael blaenoriaeth 'ganolig' ac 14 (58%) yn cael blaenoriaeth 'isef'. O ran gweithredu dilynol, roedd 12 allan o'r 15 argymhelliad blaenorol a wnaed (80%) wedi cael eu gweithredu'n llawn neu heb eu hailgodi gan yr archwilwyr. O blith y 3 yn weddill, mae 1 wedi cael ei weithredu bellach, mae 1 yn ymwneud â'r adran caffael uchod, ac mae'r 1 terfynol yn ymwneud â'r strwythur staffio, sydd i gael ei ystyried yn ystod 2018/19.

Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwyllir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau sydd yn eu lle.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2017/18 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Aeth y contract ar gyfer y gwasanaeth Archwilio Mewnol allan i dendr yn ystod y flwyddyn ac ailbenodwyd Deloitte LLP dan contract am dair blynedd, gan ddechrau ar 1af Ebrill 2018.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

Datblygiadau Parhaus

Er bod system gref o reolaeth fewnol yn ei lle, ceir bob amser feysydd sydd angen neu a fydd yn elwa o weithredu gwelliannau.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i adolygu'r system reoli sydd ar waith gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol yn gyffredinol ac, yn ystod 2017/18, mae camau ychwanegol wedi cael eu cymryd i gryfhau ymhellach y mesurau rheoli sydd yn eu lle, i reoli'r risg sy'n rhan gynhenid o fuddsoddi arian cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti. Byddwn yn adolygu hyn yn gyson yn ystod 2018/19.

Yn ystod 2017/18, parhaodd Chwaraeon Cymru i gryfhau ei brosesau cynllunio a chyllidebu drwy gael y ddwy i gyd-fynd yn well a sicrhau bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n well i flaenoriaethau strategol. Mae'r broses hon wedi cynnwys Tîm Arweinyddiaeth Chwaraeon Cymru, sef Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau. Felly mae mwy o berchnogaeth ar gyllidebau ac adnoddau.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i weithlu brwd. Mae cyrraedd safon aur yn y cynllun 'Buddsoddwyr mewn Pobl' yn dyst i hyn. Byddwn yn parhau i esblygu fel sefydliad ac yn sicrhau bod

gennym weithlu addas i bwrpas wrth i ni wynebu heriau anochel y gwaith o weithredu mewn cyfnod o lai o adnoddau.

Rydym yn croesawu cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, a ddaeth i rym ar 1af Ebrill 2016. Rydym yn un o bedwar sefydliad peilot sy'n gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu ffordd yn y dyfodol o archwilio'r sefydliadau hynny yn y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am roi'r Ddeddf ar waith.

Mae Chwaraeon Cymru'n bwriadu cyflwyno datblygiad arloesol a chyffrous drwy gyflwyno'r Prosiect Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol newydd o 2018 ymlaen. Bydd hon yn ffordd newydd a chydweithredol o gyflawni canlyniadau cymunedol ledled Cymru. Bydd y prosiect yn dechrau yng Ngogledd Cymru. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu model i roi hyn ar waith.

Swyddog Cyfrifo:

S Powell

9 Gorffennaf 2018

Adroddiad Tâl a Staff

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisiau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisiau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Mae'r holl bolisiau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabled, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd rydym yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabled'.

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru'n defnyddio'r un strwythur graddio â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur hwn yn cydnabod yn addas bellach anghenion a nodweddion gwahanol swyddogaethau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu nifer o lwfansau i wneud iawn am broblemau gyda'n strwythur tâl, sydd wedi arwain at anghydraddoldeb ac annhegwch eang.

Yn ystod 2017/18, sefydlwyd grŵp Llywio Prosiect ffurfiol yn cynnwys cyflogeion o'r adrannau Adnoddau Dynol a Chyllid, a hefyd cynrychiolwyr o'r PCS, ar lefel leol a changen. Hefyd roedd cynrychiolydd o ACAS yn rhan o'r tîm ffurfiol i ddarparu cyngor

a chyfarwyddyd. Cadeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y Grŵp.

Yng ngoleuni'r uchod, mae Chwaraeon Cymru'n cynnig gweithredu strwythur tâl a gradd newydd yn ystod 2018/19 i roi sylw i'r materion hyn. Yn unol â Dogfen Fframwaith Chwaraeon Cymru gyda Llywodraeth Cymru, bydd y strwythur newydd yn gofyn am gymeradwyaeth Weinidogol.

Mae Chwaraeon Cymru'n gweithio drwy gydol y broses mewn cydweithrediad â'n Hundeb cydnabyddedig, Gwasanaethau Cyhoeddus ac Ariannol (PCS) i ddyfeisio strwythur graddio a graddfeydd cyflog newydd ac adolygu lwfansau. Mae'r prosiect yn parhau ar hyn o bryd.

Buddsoddi yn ein Pobl

Mae gan Chwaraeon Cymru statws "Buddsoddwyr mewn Pobl" ac mae ei bolisiau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymiadau fel sefydliad dysgu. Yn ystod 2015/16, enillodd Chwaraeon Cymru safon Aur "Buddsoddwyr mewn Pobl". Mae'r safon yn edrych ar arferion a chanlyniadau'r sefydliad o dan dri phennawd perfformiad: arwain, cefnogi a gwella. Mae'r tri maes yma'n edrych ar ddiwylliant, sgiliau arwain, ymgysylltu a datblygu staff, gyda'r cyfan yn cyfrannu at wneud Chwaraeon Cymru'n sefydliad perfformiad uchel. Bydd Chwaraeon Cymru'n cael ailasesiad ar 28ain Mai 2018.

Data Absenoldeb Salwch

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2017/18 (2016/17) fel a ganlyn:

Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd	Cyfanswm y Cyflogeion (Cyferth ag Amser Llawn)	Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen
906.5 (909)	145.89 (148.53)	6.21 (6.12)

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2017/18 yw 2.81%. Mae hwn yn gynydd bychan ar gyfradd 2016/17 o 2.59%, ond dal yn cymharu â'r

cyfraddau a gyhoeddwyd gan yr ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol) ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 2.9%.

Yn ystod y cyfnod hwn mae 5 cyflogai wedi bod ar absenoldeb salwch tymor hir ac mae 4 o'r absenoldebau hyn wedi dod i ben yn awr ac, os yw hynny'n berthnasol, mae'r cyflogeion yn cael eu cefnogi i ddychwyeld i'r gwaith drwy gyfrwng rhaglenni gwaith wedi'u haddasu a darpariaeth iechyd galwedigaethol.

Fel rhan o ffocws parhaus ar reoli absenoldeb ac iechyd cyflogeion yn effeithiol, bydd polisi absenoldeb salwch Chwaraeon Cymru'n cael ei adolygu yn ystod 2018/19, gyda chefnogaeth gan yr Undeb Llafur cydnabyddedig (PCS). Eleni mae cyflogeion wedi elwa o fentrau â'u sylw ar les y meddwl. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd Chwaraeon Cymru'n parhau i gefnogi iechyd meddyliol a chorfforol ei gyflogeion drwy lofnodi Addewid Iechyd Meddwl Amser i Newid Cymru, cyfranogiad corfforaethol yn Hanner Marathon Caerdydd, a hefyd ailsefydlu grŵp llesiant trawsadrannol i weithio i gefnogi strategaeth llesiant Chwaraeon Cymru.

Cynllun Pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbriso Cyfartalog Gyrfaol. Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.6 a nodyn 17 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru'n cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

Polisi Tâl

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisiau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan y Cynulliad a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, a gefnogir gan gyflogai dirprwyedig Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl.

Contractau Gwasanaeth

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru. Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar contract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Telir cyfradd ddyddiol o £337 i'r Cadeirydd ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio diwrnod yr wythnos.

Cyfnod Rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

Cyflog y Prif Swyddog Gweithredol

Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £96,000 (2016/17 £94,500). Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys am daliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

Manteision mewn Nwyddau neu Gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

Costau Staff

Hawliadau Pensiwn a Chyflog

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am gyflog a phensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 53. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

	2017/18	2016/17
	£'000	£'000
Parhaol:		
Cyflogau a thâl	5,503	5,406
Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau, straen ar bensiwn a thalu cyfnod gadael	-	124
Costau Nawdd Cymdeithasol	529	516
Costau Pensiwn eraill	1,943	1,601
Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo	105	236
Staff ar Secondiad	(6)	(46)
	<hr/> 8,074	<hr/> 7,837
Addasiadau IAS 19	(540)	(390)
	<hr/> 7,534	<hr/> 7,447
Llai: Dyranriad i SPORTLOT	(2,127)	(2,033)
	<hr/> 5,407	<hr/> 5,414

Tâl (yn dibynnu ar archwiliad)

Enw	Teitl	% a Neilltuwyd i'r Loteri	Cyflog £000	Budd Pensiwn i'r £000 agosaf	Cyfanswm £000
		2017/18 (2016/17)	2017/18 (2016/17)	2017/18 (2016/17)	2017/18 (2016/17)
Mr Lawrence Conway ¹	Cadeirydd	-	-	-	-
Ms Pippa Britton ⁵	Is Gadeirydd	(50%)	5 - 10	-	5 - 10
Dr Paul Thomas ²	Cadeirydd	(50%)	(40 - 45)	-	(40 - 45)
Mrs Adele Baumgardt ²	Is Gadeirydd	(50%)	(15 - 20)	-	(15 - 20)
Ms Sarah Powell	Prif Weithredwr	25% (25%)	95- 100 (90 - 95)	26,000 (28,000)	120 - 125 (120 - 125)
Mr Graham Williams	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	55 - 60 (55 - 60)	4,000 (29,000)	60 - 65 (85 - 90)
Mr Brian Davies	Cyfarwyddwr Corfforaethol	80% (80%)	55 - 60 (55 - 60)	21,000 (25,000)	80 - 85 (80 - 85)
Mr Jonathan Davies ³	Cyfarwyddwr Corfforaethol	50% (50%)	20 - 25 (55 - 60)	6,000 (18,000)	25 - 30 (75 - 80)
Mr Peter Curran	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	60 - 65 (60 - 65)	19,000 (20,000)	80 - 85 (80 - 85)
Mr Malcolm Zapple	Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0% (0%)	60 - 65 (60 - 65)	7,000 (33,000)	65 - 70 (90 - 95)
Mr Steven Morgan	Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0% (0%)	50 - 55 (50 - 55)	81,000 (16,000)	130 - 135 (65 - 70)
Yr Athro John Baylis ⁴	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	-	0 - 5 (5 - 10)
Mr Simon Pirotte ⁴	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	-	0 - 5 (5 - 10)
Ms Johanna Sheppard ⁶	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	-	5 - 10 (5 - 10)
Ms Julia Longville ⁷	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	-	5 - 10 (5 - 10)
Mr Peter King	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	-	5 - 10 (5 - 10)
Ms Amanda Bennett ⁴	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	-	0 - 5 (5 - 10)
Ms Sama Small (Wafa gynt)	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	-	5 - 10 (5 - 10)
Mr Andrew Lycett ⁴	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	-	0 - 5 (5 - 10)
Mr Richard Parks	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	-	5 - 10 (5 - 10)
Mr Ashok Ahir ⁵	Aelod o'r Cyngor	50%	0 - 5	-	0 - 5
Mr Ian Bancroft ⁵	Aelod o'r Cyngor	50%	0 - 5	-	0 - 5
Mr Christian Malcolm ⁵	Aelod o'r Cyngor	50%	0 - 5	-	0 - 5
Ms Alison Thorne ⁵	Aelod o'r Cyngor	50%	0 - 5	-	0 - 5

¹ Lawrence Conway wedi dewis peidio â chymryd cyflog pan oedd yn ei rôl fel Cadeirydd Dros Dro

² Terfynwyd 29ain Mawrth 2017

³ Gadawodd 4ydd Awst 2017

⁴ Ymddeolodd 31ain Awst 2017

⁵ Penodwyd 1af Hydref 2017

⁶ Ar Absenoldeb Mamolaeth o 1af Ionawr 2018. Wedi dewis peidio â chymryd cyflog pan oedd ar Absenoldeb Mamolaeth.

⁷ Is Gadeirydd rhwng 17eg Ebrill a 30ain Medi 2017

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

Buddiannau Pensiwn yr Uwch Reolwyr (yn dibynnu ar archwiliad)

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2017/18	Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2018	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2017	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000
Ms Sarah Powell Prif Weithredwr	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	25 – 30 (35 – 40)	381	347	23
Mr Peter Curran Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	50	33	11
Mr Steven Morgan Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	2.5 – 5.0 (0.0 – 2.5)	5 – 10 (0 – 5)	68	20	44**
Mr Malcolm Zapple Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	25 – 30 (45 – 50)	497	470	22
Mr Brian Davies Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	10 – 15 (0 – 5)	162	140	17
Mr Jonathan Davies* Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	42	36	4
Mr Graham Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	20 – 25 (30 – 35)	320	303	12

*Gadawodd Jonathan Davies ar 4ydd Awst 2017. **Cyfunwyd pensiwn preifat yn ystod y flwyddyn.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa pensiwn a gronnydd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw pensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwariau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Costau Staff

Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

	Nifer 2017/2018	Nifer 2016/2017
Cyfanswm	145.9	148.5

Mae cyfansoddiad staff y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 75% gwryw a 25% benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 50% yn wrywod a 50% yn fenywod.

Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau	
	2017-18	2016-17
< £10,000	0	0
£10,000 - £25,000	0	0
£25,000 - £50,000	0	2
£50,000 - £100,000	2*	1
£100,000 - £150,000	0	0
Cyfanswm y pecynnau ymadael	2	3
Cyfanswm costau adnoddau (£)	131,000	145,000

*Un taliad yn ymwneud â chyflogai'n gadael ac un yn ymwneud â thalu straen pensiwn

Talwyd taliadau diswyddo ac ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru.

Polisi Treth ar gyfer y Rhai a Benodir Oddi ar y Gyflogres

Ar 31 Mawrth 2018, roedd 5 trefniant a oedd wedi bodoli (2016/17, 5 trefniant, ailddatganwyd). O blith y rhain mae 4 trefniant wedi bod yn eu lle am 4 blynedd neu fwy ac 1 trefniant wedi bod yn ei le am rhwng 2 a 3 blynedd. Mae pob trefniant wedi'i asesu fel trefniant heb ei ddal gan IR35. Mae Chwaraeon Cymru'n fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

Datgeliadau Cyflog Teg

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

	2017-18	2016-17
Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£'000)	95 - 100	90 - 95
Cyfanswm Tâl Canolrifol	28,496	26,400
Cymhareb	3.4	3.5

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio (ac eithrio staff asiantaeth, gan nad ydynt yn sylfaenol),
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd gostyngiad yn y gymhareb ganolrifol o 0.1%. Y rheswm am hyn oedd dyfarniad tâl yn ystod 2017/18 a welodd gynnydd canran uwch ar gyfer staff ar gyflogau is.

Amrywiodd y tâl o £16,3000 i £96,000 (amrywiodd tâl 2016/17 o £16,000 i £94,500).

Swyddog Cyfrifo:

S Powell
9 Gorffennaf 2018

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad ar archwilio'r datganiad ariannol

Barn

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifo'r Undeb Ewropeaidd/Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig). Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2018 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran

cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth ymchwil rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol y mae ISAs (UK) yn gofyn i mi adrodd arnynt i chi os:

- nad yw'r defnydd o sail gyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r Swyddog Cyfrifo wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylfaenol a ganfuwyd ac a all greu amheuaeth arwyddocaol am allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pryd awdurdodir y datganiadau ariannol ar gyfer eu cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad a'r cyfrifon ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, oni bai am i'r graddau a fynegir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi.

Mewn perthynas â fy archwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn canfod anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n sylfaenol anghywir yn ôl pob tebyg, neu'n sylfaenol anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth i mi fynd ati i gynnal yr archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol, rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y pwrpas yu bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan yn yr Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Datganiad Llywodraethu sydd wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Perfformiad sydd wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd fel y sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw

gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Perfformiad. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo priodol wedi cael eu cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- nid yw'r wybodaeth y manylwyd arni gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo am y Datganiadau Ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, i sicrhau eu bod yn rhoi barn gywir a theg ac i sicrhau'r rheolaeth fewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifo er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n briodol faterion cysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifo busnes gweithredol oni bai y credir fod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad ar y datganiadau ariannol

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gallant, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Rwyf yn sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru 24 Heol y Gadeirlan
Gorffennaf 2018 Caerdydd
 CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifo yw cynnal gwefan Cyngor Chwaraeon Cymru a gwarchod ei hintegriti. Nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd o bosib i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno i ddechrau ar y wefan.

Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2018

		2017/18	2016/17
	Nodyn	£'000	£'000
GWARIANT			
Gwariant Grant	5	15,097	16,239
Costau Staff	6	5,407	5,414
Gwariant Arall	7	3,591	3,440
Dibrisiant	9	492	532
		<hr/>	<hr/>
		24,587	25,625
INCWM			
Incwm o Weithgareddau	3	(2,841)	(2,685)
Incwm Arall	3	(111)	(182)
		<hr/>	<hr/>
		(2,952)	(2,867)
Gwariant Net			
		21,635	22,758
Cost Cyllid Pensiwn		236	258
(Gwarged)/Diffyg ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer	8	1	(29)
Llog Derbyniadwy		(2)	(1)
		<hr/>	<hr/>
		235	228
Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant			
		21,870	22,986
Trethiant Taladwy		-	-
		<hr/>	<hr/>
Gwariant Net ar ôl Trethiant			
		21,870	22,986
Gwariant Cynhwysfawr Arall			
Colledion/(enillion) net ar ailbriso Eiddo, Peiriannau ac Offer		2,387	(149)
Pensiwn colledion actwaraidd		904	2,075
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben			
		25,161	24,912

Gweithrediadau Sy'n Parhau

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol ac ni ddaethpwyd ag unrhyw weithgareddau i ben.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £21,870,000 (2016/2017 £22,986,000).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2018

		Ar 31 Mawrth 2018	Ar 31 Mawrth 2017
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, Peiriannau ac Offer	9(a)	561	468
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		561	468
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	1,300	1,574
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		544	373
		1,844	1,947
Cyfanswm yr Asedau		2,405	2,415
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(842)	(600)
Croniadau grant	12	(4)	(19)
Darpariaethau	18	-	(124)
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol		(846)	(743)
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		1,559	1,672
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn	11	(114)	(146)
Atebolrwydd Pensiwn	17	(10,476)	(9,746)
Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol		(10,590)	(9,892)
Asedau llai cyfrifoldebau		(9,031)	(8,220)
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		1,445	1,526
Cronfa bensiwn wrth gefn		(10,476)	(9,746)
Cronfa ailbrizio wrth gefn		-	-
		(9,031)	(8,220)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 9fed Gorffennaf 2018 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

Swyddog Cyfrifo:

S Powell (Prif Weithredwr)

9 Gorffennaf 2018

Datganiad Cyfnerthedig o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2018

		Ar 31 Mawrth 2018	Ar 31 Mawrth 2017
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, Peiriannau ac Offer	9(b)	17,174	19,490
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		<u>17,174</u>	<u>19,490</u>
Asedau cyfredol			
Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	1,300	1,574
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	14	548	377
		<u>1,848</u>	<u>1,951</u>
Cyfanswm yr Asedau		<u>19,022</u>	<u>21,441</u>
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill	11	(842)	(600)
Croniadau grant	12	(4)	(19)
Darpariaethau	18	-	(124)
Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol		<u>(846)</u>	<u>(743)</u>
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		<u>18,176</u>	<u>20,698</u>
Atebolrwydd anghyfredol			
Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn	11	(114)	(146)
Atebolrwydd Pensiwn	17	(10,476)	(9,746)
Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol		<u>(10,590)</u>	<u>(9,892)</u>
Asedau llai cyfrifoldebau		<u>7,586</u>	<u>10,806</u>
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		13,127	12,844
Cronfa bensiw wrth gefn		(10,476)	(9,746)
Cronfa ailbriso wrth gefn		4,935	7,708
		<u>7,586</u>	<u>10,806</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 9fed Gorffennaf 2018 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

Swyddog Cyfrifo:

S Powell (Prif Weithredwr)

9 Gorffennaf 2018

Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2018

Llif arian o weithgareddau gweithredu

		Ar 31 Mawrth 2018	Ar 31 Mawrth 2017
	Nodyn	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Diffyg net ar ôl llog		(21,870)	(22,986)
(Gwarged)/Diffyg ar waredu eiddo, peiriannau ac offer	8	1	(29)
Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer	9(b)	492	532
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill	10	274	717
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach ac elfennau taladwy	11	209	(279)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn croniadau grant	12	(15)	2
Llog a dderbyniwyd	13	(2)	(1)
Costau pensiwn	17	(174)	(39)
Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer diswyddiadau	18	(124)	(135)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		<u>(21,209)</u>	<u>(22,218)</u>
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	9(b)	(563)	(521)
Llog a dderbyniwyd	13	2	1
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		<u>(561)</u>	<u>(520)</u>
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido		(21,770)	(22,738)
Llog a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru	4	21,941	22,249
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		<u>171</u>	<u>(489)</u>
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod			
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	14	377	866
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	14	548	377
		<u>171</u>	<u>(489)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn	Cronfa Gyffredinol	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2017	7,708	12,844	(9,746)	10,806
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(21,870)	-	(21,870)
Cyllid a dderbyniwyd	-	21,941	-	21,941
Ailbriso asedau sefydlog diriaethol	(2,387)	-	-	(2,387)
Costau pensiwn	-	(174)	174	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(386)	386	-	-
Colled actwaraid	-	-	(904)	(904)
Cyllid ar 31 Mawrth 2018	4,935	13,127	(10,476)	7,586

Y cyllid yng nghyfrifon anghyfernerthedig Chwaraeon Cymru ei hun ar 31 Mawrth 2018 oedd ((£9,031,000)), (31 Mawrth 2017 ((£8,220,000)) gydag £16,617,000 (2016/17 £19,026,000) yn cael ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

	Cronfa Ailbriso Wrth Gefn	Cronfa Gyffredinol	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2016	7,994	13,185	(7,708)	13,471
Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth	-	(22,986)	-	(22,986)
Cyllid a dderbyniwyd	-	22,249	-	22,249
Ailbriso asedau sefydlog diriaethol	149	-	-	149
Costau pensiwn	-	(39)	39	-
Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol	(435)	435	-	-
Colled actwaraid	-	-	(2,077)	(2,077)
Cyllid ar 31 Mawrth 2017	7,708	12,844	(9,746)	10,806

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru - Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

1. Datganiad o Bolisiau Cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2017/18 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifo yn y Llawlyfr yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol, fel yr addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisiau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon. Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar sail wahanol, i gadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2015.

1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbriso eiddo, peiriannau ac offer.

1.2 Cyllid

Mae Chwaraeon Cymru'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a referniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Hefyd, mae Chwaraeon Cymru'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i weithredu Cynllun Gweithredu'r Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol, a gredydir hefyd yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu a gyfyd.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a cherbydau a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

1.3 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn. Nid yw'r tir prydles o dan y brydles weithredu wedi'i gynnwys yn natganiad o sefyllfa ariannol Chwaraeon Cymru.

Mae offer a cherbydau'n gynnwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £5,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

Eiddo rhydd-ddaliadaeth	35 mlynedd
Eiddo prydlles	35-50 mlynedd
Offer - cyfrifiaduron	3 blynedd
Arall	3 - 10 mlynedd
Cerbydau	5 mlynedd

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

1.5 Stocrestrï

Mae gan Chwaraeon Cymru stocrestr ar gyfer dyrannu fel rhan o'i weithgareddau grant ac adlewyrchwyd y costau cysylltiedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae ganddo stocrestr ar gyfer ailwerthu, nad ystyrir yn sylfaenol. Nid yw'r stocrestr ar gyfer ailwerthu wedi cael ei chydabod fel ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol: mae costau'r asedau hyn wedi cael eu cydnabod fel Gwariant Arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

1.6 Pensiynau

Daw'r cyfraniadau i gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru o'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru. Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan yr actwari. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa pensiwn fel atebolrwydd pensiwn net ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rhennir unrhyw asedau neu atebolrwydd pensiwn rhwng Chwaraeon Cymru a'r Loteri ar sail y gyfradd neilltuo hanesyddol o gostau staff, yn unol â'r amser mae'r staff yn ei dreulio'n rhoi gweithgareddau'r Loteri ar waith.

1.7 Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 20% (20% 2016/17) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

1.8 Grantiau taladwy

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cynigir grantiau ar y sail o lunio ymrwymiad ariannol yn seiliedig ar gyfnod y prosiect. Yn aml iawn, nid yw'r cyfnodau hyn yn cyd-fynd â chyfnod cyfrifo Chwaraeon Cymru. Cyfrifir am yr holl wariant grant ar sail dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y prosiect a chymerir yn ganiataol bod y gwariant yn cael ei wneud yn gytbwys yn ystod oes y prosiect. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.10, Defnyddio amcangyfrifon a phenderfyniadau.

1.9 Cyfuno

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad oes raid ei gyfuno â'r cyfrifon hyn.

1.10 Defnydd o amcangyfrifon a phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisiau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth

ddefnyddio polisiau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:-

Nodyn 6 – Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

Nodyn 9(b) – Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

Nodyn 12 – Cyfrifir cronadau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.8.

Nodyn 17 – Mae'r mesur o gyfraniadau buddiannau pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

1.11 Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru'n cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru'n wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

1.12 Nam

Adolygir gwerth asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

1.13 Darpariaethau

Gwneir darpariaeth i ddarparu ar gyfer atebolrwydd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd digwyddiad neu benderfyniad a wneir yn ystod blwyddyn ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch y swm a/neu'r dyddiad pryd bydd yn codi. Dangosir newid i'r ddarpariaeth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Pan fydd yr atebolrwydd gwirioneddol yn digwydd, mae'n cael ei roi yn erbyn y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol.

Yn ystod 2017/18 derbyniwyd yr anfoneb straen ar bensiwn a'i thalu, felly mae'r ddarpariaeth wedi cael ei rhyddhau yn awr. Hefyd mae'r ddarpariaeth diswyddo wedi cael ei rhyddhau ar gyfer yr un aelod o staff a adawodd yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer yr aelod hwn o staff, cafodd y taliad diswyddo gwreiddiol ei gyfrif gan ddefnyddio telerau 2016 Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil ond, ar ôl adolygiad barnwrol, cafodd y taliad ychwanegol dyledus yn seiliedig ar delerau 2010 ei gyfrif a'i dalu ym mis Mawrth 2018.

Ym mis Mawrth 2017, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, gwnaed darpariaeth mewn perthynas â thaliad diswyddo'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd. Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei defnyddio yn ystod 2017/18.

1.14 Safonau Cyfrifo Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd ond Heb Fod yn Weithredol Eto

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig gan eu mabwysiadu gan yr FreM. Mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu newidiadau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynol.

2. Dadansoddiad o'r Gwariant Cynhwysfawr Net


Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad.

Mae fformat blaenorol Chwaraeon Cymru wedi cael ei newid am ddadansoddiad manylach sy'n dangos y gwariant a ddyrennir mewn manylder.

	Nodyn	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Y Canolfannau Cenedlaethol			
Refeniw	3	(2,818)	(2,659)
Gwariant Arall	7	1,600	1,500
Cyfraniad Gweithredu Net		<u>(1,218)</u>	<u>(1,159)</u>
Grantiau			
Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon	3	(23)	(26)
Gwariant Grant	5	15,097	16,239
Cost Gweithredu Net		<u>15,074</u>	<u>16,213</u>
Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol			
Incwm Arall	3	(111)	(182)
Gwariant Arall	7	1,991	1,940
Cost Gweithredu Net		<u>1,880</u>	<u>1,758</u>
Costau Staff	6	<u>5,407</u>	<u>5,414</u>
Gwariant Net Cynhwysfawr cyn y Costau Eraill		<u>21,143</u>	<u>22,226</u>
Costau Eraill			
Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau		4,018	2,686
Cost Gweithredu Net		<u>4,018</u>	<u>2,686</u>
Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr		<u>25,161</u>	<u>24,912</u>


2. Dadansoddiad o'r Gwariant Cynhwysfawr Net – Parhad

**Gwariant Cynhwysfawr Net
Cyn Costau Eraill**



- Canolfannau Cenedlaethol*
 - Grantiau*
 - Datblygu Chwaraeon*
 - Corfforaethol
 - Costau Staff
- * yn cynnwys costau staff perthnasol

**Gwariant Grant
£'000**



- Campau'r Ddraig
- 5 X 60
- Cynllun Hyfforddi
- Nofio Am Ddim
- Cyrff Rheoli
- Grantiau Eraill

3. Incwm

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Incwm o weithgareddau:		
Grantiau Datblygu Chwaraeon:		
Arall	23	26
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol		
Arlwyo	315	302
Defnydd o Gyfleusterau Cyrff Rheoli	509	512
Defnydd o Gyfleusterau Cyffredinol	359	341
Llety	474	361
Aelodaeth o Ganolfan Ffitrwydd	167	148
Archebion Cwrs	994	995
	2,818	2,659
	2,841	2,685
Incwm gweithredu arall:		
Adfer grantiau	-	30
Grant Gemau Cymru	55	55
Grant Twristiaeth	49	70
Incwm arall	7	27
	111	182
Cyfanswm yr Incwm	2,952	2,867

4. Grantiau Derbyniadwy gan y Llywodraeth

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol	21,941	22,249

5. Gwariant Grant

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Cyrff Rheoli	6,457	6,885
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion	48	777
Awdurdodau Lleol	8,592	8,577
	<u>15,097</u>	<u>16,239</u>

Mae'r ffigur uchod yn cynnwys £1,353,697 o wariant uniongyrchol ar ran derbynyddion grantiau (1,669,042 yn 2016.17)

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Y Sector Cyhoeddus	8,903	9,133
Y Sector Preifat	6,194	7,106
	<u>15,097</u>	<u>16,239</u>

6. Costau Staff

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Parhaol:		
Cyflogau a thâl	5,503	5,406
Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau, straen ar bensiwn a rhybudd gadael	-	124
Costau Nawdd Cymdeithasol	529	516
Costau Pensiwn eraill	1,943	1,601
Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo	105	236
Staff ar Secoundiad	(6)	(46)
	<u>8,074</u>	<u>7,837</u>
Addasiadau IAS19	(540)	(390)
	<u>7,534</u>	<u>7,447</u>
Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT	(2,127)	(2,033)
	<u>5,407</u>	<u>5,414</u>

Mae'r costau Pensiwn eraill yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £887,000 tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2016/17 £670,000). Neilltuir y cyfraniad cyfandaliad 76% Chwaraeon Cymru a 24% Loteri. Mae'r dyraniad yn rhan o'r llinell 'Neilltuwyd i SPORTLOT'.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol) gael ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

Ar gyfer 2017/18, y gost oedd £1,390,000 (gan gynnwys cost gwasanaeth yn y gorffennol) ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y Datganiad. Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £1,930,000, felly roedd yr effaith net yn (£540,000) i gostau staff. Gan fod cost y gwasanaeth ar hyn o bryd yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Gronfa Gyffredinol

7. Gwariant Arall

(a)	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Ffioedd Archwilydd - Gwasanaethau Archwilio	23	23
- Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth	3	3
Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol		
Aelodau	10	19
Staff y pencadlys	39	39
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	4	7
Datblygu Chwaraeon	99	100
Gwasanaethau Cefnogi Canolog	499	502
Marchnata a chyfathrebu	607	698
Ymchwil	448	347
Llog Taladwy i Lywodraeth Cymru	1	1
Gwariant Arall:		
Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol	1,596	1,493
Datblygu Chwaraeon	262	216
Symudiad yn y Ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus	-	(8)
	3,591	3,440

Gellir dadansoddi'r gwariant hwn ymhellach fel a ganlyn:

(b)	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Canolfannau Chwaraeon	1,600	1,500
Datblygu Chwaraeon	361	316
Corfforaethol	1,630	1,624
	3,591	3,440

8. Gwaredu Eiddo, Peiriannau ac Offer

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Gwerth llyfr crynswth	14	202
Dibrisiant cronnoł	(13)	(192)
Gwerth llyfr net	<u>1</u>	<u>10</u>
Elw o werthu	-	39
Gwarged ar werthu'r ased	<u>(1)</u>	<u>29</u>

9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

(a) Y Cyngor:	Offer £'000	Cerbydau £'000	TGCh £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2017	748	164	166	1,078
Ychwanegiadau	99	53	46	198
Gwaredu	(14)	-	-	(14)
Ar 31 Mawrth 2018	<u>833</u>	<u>217</u>	<u>212</u>	<u>1,262</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2017	(373)	(100)	(137)	(610)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(81)	(14)	(10)	(105)
Gwaredu	14	-	-	14
Ar 31 Mawrth 2018	<u>(440)</u>	<u>(114)</u>	<u>(147)</u>	<u>(701)</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2018	<u>393</u>	<u>103</u>	<u>65</u>	<u>561</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2017	375	64	29	468
	Offer £'000	Cerbydau £'000	TGCh £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2016	550	157	140	847
Ychwanegiadau	205	21	36	262
Gwaredu	(7)	(14)	(10)	(31)
Ar 31 Mawrth 2017	<u>748</u>	<u>164</u>	<u>166</u>	<u>1,078</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2016	(308)	(97)	(137)	(542)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(70)	(17)	(10)	(97)
Gwaredu	5	14	10	29
Ar 31 Mawrth 2017	<u>(373)</u>	<u>(100)</u>	<u>(137)</u>	<u>(610)</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2017	<u>375</u>	<u>64</u>	<u>29</u>	<u>468</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2016	242	60	3	305

9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

(b) Cyfnerthedig:	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £'000	Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £'000	Offer £'000	Cerbydau £'000	TGCh £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2017	6,209	12,813	1,317	166	166	20,671
Ychwanegiadau	205	159	100	53	46	563
Gwaredu	-	-	(14)	-	-	(14)
Ailbriso	(283)	(2,490)	-	-	-	(2,773)
Ar 31 Mawrth 2018	6,131	10,482	1,403	219	212	18,447
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2017	-	-	(943)	(101)	(137)	(1,181)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(170)	(216)	(81)	(15)	(10)	(492)
Gwaredu	-	-	14	-	-	14
Ailbriso	170	216	-	-	-	386
Ar 31 Mawrth 2017	-	-	(1,010)	(116)	(147)	(1,273)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2018	6,131	10,482	393	103	65	17,174
Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2017	6,209	12,813	374	65	29	19,490

(b) Cyfnerthedig:	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai £'000	Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru £'000	Offer £'000	Cerbydau £'000	TGCh £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2016	6,084	12,926	1,280	168	140	20,598
Ychwanegiadau	217	81	205	21	36	560
Gwaredu	-	-	(168)	(23)	(10)	(201)
Ailbriso	(92)	(194)	-	-	-	(286)
Ar 31 Mawrth 2017	6,209	12,813	1,317	166	166	20,671
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2016	-	-	(1,031)	(107)	(137)	(1,275)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(172)	(263)	(70)	(17)	(10)	(532)
Gwaredu	-	-	158	23	10	191
Ailbriso	172	263	-	-	-	435
Ar 31 Mawrth 2017	-	-	(943)	(101)	(137)	(1,181)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2017	6,209	12,813	374	65	29	19,490
Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2016	6,084	12,926	249	61	3	19,323

Fel rhan o dir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai, ceir tir a brisiwyd yn £175,000 (2016/17 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisiu'n annibynnol ar 31 Mawrth 2018 yn £16,613,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r prisiad hwn yn eithrio tir yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles. Mae taliadau pryddles o £3,071 y flwyddyn yn cael eu talu am Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Mae hanner can mlynedd yn weddill ar y brydles naw deg naw mlynedd bresennol, sy'n cyfateb i ymrwymiad cyffredinol o £153,550. Roedd y golled ailbriso o £2,387,000 yn deillio'n bennaf o newid yn y gyfradd adeilad ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd o'r un a ddefnyddiwyd yn 2017, ynghyd â gostyngiad yn y ffactor rhanbarthol ar gyfer De Morgannwg.

10. Masnach ac Elfennau Derbyniadwy Eraill (Dyledus o Fewn Blwyddyn)

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Masnach dderbyniadwy	183	180
SPORTLOT	710	794
TAW	105	90
Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd	281	364
Rhagdaliad grant	-	132
Grant ad-daladwy	22	15
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus	(1)	(1)
	<u>1,300</u>	<u>1,574</u>

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	896	1,010
Balans gydag awdurdodau lleol	70	127
	<u>966</u>	<u>1,137</u>
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth	334	437
	<u>1,300</u>	<u>1,574</u>

11. Masnach Daladwy ac Atebolrwydd Cyfredol Arall

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Masnach daladwy	168	164
Croniadau	554	367
Incwm gohiriedig	234	215
	<u>956</u>	<u>746</u>

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Masnach Gyfredol ac Elfennau Taladwy Eraill	842	600
Masnach Anghyfredol ac Elfennau Taladwy Eraill	114	146
	<u>956</u>	<u>746</u>

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Balans rhyng-lywodraeth		
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	259	210
Balans gydag awdurdodau lleol	8	6
	<u>267</u>	<u>216</u>
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth	689	530
	<u>956</u>	<u>746</u>

12. Croniadau Grant

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Grantiau Wedi Cronni	<u>4</u>	<u>19</u>

13. Llif Arian Crynswth

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi		
Llog a dderbyniwyd	2	1
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol		
Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer	(563)	(560)
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer	-	39
	(563)	(521)
Llif Arian o Weithgareddau Cyllido		
Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4)	21,941	22,249

14. Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod

	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Ar 1 Ebrill	377	866
Newid net y balansau mewn arian parod a chyferwerth ag arian parod	171	(489)
Ar 31 Mawrth	548	377
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw mewn:		
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	548	377
Ar 31 Mawrth	548	377

15. Ymrwymadau Cyfalaf

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Contractiwyd ond heb dalu	6	3

16. Atebolrwydd Wrth Gefn

Nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

17. Buddiannau i Gyflogeion

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru'n aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol yr aelodau.

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif y Loteri. Ar gyfer 2017/18, mae hwn yn 76% i Gyngor Chwaraeon Cymru a 24% i'r Loteri.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £1,930,000 o gyfraniad pensiwn yn 2017/18 (2016/17 £1,550,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £989,000 sy'n cynrychioli 24.2% o gyflog pensiynadwy (2016/17 £876,000 20.2%)
- Cyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar £58,000 (2016/17 £0)
- Cyfraniad Cyfandaliad o £887,000 (24% wedi'i dalu gan y Loteri), (2016/17 £670,000 gyda 24% wedi'i dalu gan y Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2017/18 ymlaen fydd 24.2%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2016. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadrann yr Actwariâu, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Chwaraeon Cymru'n disgwyl cyfrannu £1,970,000 at y gronfa yn 2018/19, sy'n cynnwys cyfraniad tuag at ddiffyg pensiwn o £914,000. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £310,000 gyda £236,000 (2016/17 £258,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £74,000 (2016/17 £82,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Y gost actwaraidd lawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £1,190,000 gyda £904,000 (2016/17 £2,075,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £286,000 (2016/17 £655,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Yr atebolrwydd pensiwn llawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £13,650,000, gyda £10,476,000 (2016/17 £9,746,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £3,174,000 (2016/17 £2,944,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri. Mae atebolrwydd pensiwn y Loteri wedi'i addasu £102,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif y Loteri gyda'r £102,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r atebolrwydd pensiwn yng nghyfrif cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Prif Ragdybiaethau Ariannol

	31 Mawrth 2018 %	31 Mawrth 2017 %	31 Mawrth 2016 %
Cyfradd Gostyngiad	2.6	2.6	3.5
Chwyddiant - CPI	2.1	2.0	1.8
Cyfradd y cynnydd i bensynau mewn taliadau	2.1	2.0	1.8
Cyfradd y cynnydd i bensynau gohiriedig	2.1	2.0	1.8
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	3.1	3.0	2.8
Rhagdybiaethau marwoldeb:	Blynyddoedd	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	23.1	23.0	23.8
- Merched	25.8	25.7	26.8
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	24.2	24.0	25.9
- Merched	27.2	27.1	29.1

Mae Chwaraeon Cymru'n defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion

marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyrniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2018.

Dadansoddiad o symudiadau'r gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m
Gwerth teg asedau'r gronfa	42.87	40.34
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(56.52)	(53.03)
(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(13.65)	(12.69)

Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â Chostau Gweithredu

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m
Cost gyfredol y gwasanaeth	1.33	1.16
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.06	0.00
Cost llog	0.31	0.34
Cydnabuwyd y treuliau	1.70	1.50

Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m
Adenillion ar asedau cynllun mwy na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net	(0.17)	(7.00)
Colledion actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau ariannol	1.07	11.37
Colledion actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau demograffig	0.00	(4.02)
Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd	0.29	2.38
Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall	1.19	2.73
Cyfanswm y swm cydnabyddedig	2.89	4.23

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant yn ystod y cyfnod cyfrif

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m
Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol	53.03	41.36
Cost gyfredol y gwasanaeth	1.33	1.16
Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant	1.37	1.44
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.29	0.31
Colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol	1.07	11.37
Colledion/(enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig	0.00	(4.02)
Colledion actwaraidd ar atebolrwydd - profiad	0.29	2.38
Buddiannau net a dalwyd	(0.92)	(0.97)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad)	0.06	0.00
Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi	56.52	53.03

Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m
Gwerth teg agoriadol yr asedau	40.34	31.35
Incwm llog ar asedau	1.06	1.10
Ailfesur enillion ar asedau	0.17	7.00
Cyfraniadau gan y cyflogwr	1.93	1.55
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.29	0.31
Buddiannau net a dalwyd	(0.92)	(0.97)
Gwerth teg yr asedau wrth gloi	42.87	40.34

Adenillion gwirioneddol ar asedau

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m
Adenillion disgwylidig ar asedau	1.06	1.10
Enillion actwaraidd ar asedau	0.17	7.00
Adenillion gwirioneddol ar asedau	1.23	8.10

Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant a diffyg

	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m	31 Mawrth 2016 £m	31 Mawrth 2015 £m	31 Mawrth 2014 £m	31 Mawrth 2013 £m
Gwerth teg yr asedau	42.87	40.34	31.35	30.40	26.37	22.48
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant	(56.52)	(53.03)	(41.36)	(42.57)	(36.64)	(41.67)
(Diffyg)	(13.65)	(12.69)	(10.01)	(12.17)	(10.27)	(19.19)

18. Darpariaethau

	Diswyddiadau cyflogeion £'000	Taliad Gadael £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2017	114	10	124
Symudiad yn y Ddarpariaeth	17	-	17
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(131)	(10)	(141)
Balans ar 31 Mawrth 2018	-	-	-
	Diswyddiadau cyflogeion £'000	Taliad Gadael £'000	Cyfanswm £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	-	-	-
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	-	-
Hwyrach na phum mlynedd	-	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2018	-	-	-

Diswyddiadau Cyflogeion a Baich Pensiwn

Yn ystod 2017/18 derbyniwyd yr anfoneb straen ar bensiwn o Gronfa Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg a'i thalu, felly mae'r ddarpariaeth wedi cael ei rhyddhau yn awr. Hefyd mae'r ddarpariaeth diswyddo wedi cael ei rhyddhau ar gyfer yr un aelod o staff a adawodd yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer yr aelod hwn o staff, cafodd y taliad diswyddo gwreiddiol ei gyfrif gan ddefnyddio

telerau 2016 Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil ond, ar ôl adolygiad barnwrol, cafodd y taliad ychwanegol dyledus yn seiliedig ar delerau 2010 ei gyfrif a'i dalu ym mis Mawrth 2018

Taliad Rhybudd Gadael

Ym mis Mawrth 2017, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, gwnaed darpariaeth mewn perthynas â thaliad rhybudd gadael y cyn Gadeirydd ac Is Gadeirydd. Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei defnyddio yn ystod 2017/18.

19. Trafodion Parti Cysylltiedig

Cyrff Cyhoeddus

Mae Chwaraeon Cymru'n Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd.

wedi datgan diddordeb ynddynt. Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymadau cyfredol, ymrwymadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau. Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Unigolion

Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylfaenol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol

Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
S Morgan Rheolwr, Plas Menai	Gymnasteg Cymru	424	Merch yn aelod	-
	URDD	310	Merch yn aelod	-
	Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol	9	Cyn Brif Weithredwr	-
S Powell Prif Weithredwr	Undeb Hoci Cymru	399	Cyn Aelod	-
	Prifysgol Abertawe	26	Cymrawd Anrhydeddus	-
J Longville Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	10	Prif Ddarlithydd	-
	Pêl Rwyd Cymru	257	Cadeirydd y Dewiswyr	-
	Gymnasteg Cymru	424	Cyn Fentor	-
	Athletau Cymru	421	Mab yn athletwr gydag Athletau Cymru	-
J Sheppard Aelod o'r Cyngor	Pêl Rwyd Cymru	257	Mam yn gyflogai	-
	CBS Rhondda Cynon Taf	741	Chwaer yn gyn gyflogai	-
	Undeb Badminton Cymru	101	Chwaer yn gadeirydd	-
	Undeb Golff Cymru	254	Chwaer yn aelod o'r bwrdd	-
	Undeb Rygbi Cymru	696	Tad yn Swyddog Gemau gydag URC	-

Panel Aelodau	Corff	Taliadau yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Taliad Grant a Ymrwymwyd
A Bennett Aelod o'r Cyngor	Sport & Recreation Alliance	20	Cynghorydd Llywodraethu	-
B Davies Cyfarwyddwr Corfforaethol	Gymnasteg Cymru	424	Priod yn Hyfforddwr	-
G Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol	Pêl Rwyd Cymru Tennis Cymru	257 186	Plant yn Aelodau Gwraig yn Aelod	- -
A Lycett Aelod o'r Cyngor	Llywodraeth Cymru	251	Aelod agos o'r teulu'n gyflogedig	-
S Small Aelod o'r Cyngor	Cyngor Dinas Caerdydd BBC Cymdeithas Bêl Droed Cymru	852 19 747	Cyn Hyfforddwr a Theulu'n Gyflogedig Brawd/chwaer yn gyflogai Cefnogi Rhaglenni Gwirfoddol	- - -
P Curran Cyfarwyddwr Corfforaethol	Prifysgol Abertawe	26	Partner yn Brif Academydd	-
I Bancroft Aelod o'r Cyngor	Aura Leisure Cyngor Sir y Fflint	6 405	Comisiynydd a Chyllidwr Cyflogai	- -
C Malcolm Aelod o'r Cyngor	Athletau Cymru	421	Aelod Bwrdd a Phrif Hyfforddwr	-

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 50 i 56.

20. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd Yn Ôl

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn ôl.